







# Newid Strategol Rhaglen

Gweithio mewn Partneriaeth ar gyfer Ein Pobl, Ein Lleoedd ac Ein Planed

**Diweddariad 2023/2024**

**Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion diwygiedig y rhaglen newid strategol a fydd yn cael ei rhoi ar waith i alluogi'r cyngor i gyflawni ei ddiben a'i weledigaeth ar gyfer 2023/2024. Bwriedir ei ddarllen ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol 2022-2027.**

# Rhagair

Ym mis Mai 2022 ffurfiwyd Clymblaid yr Enfys ac rwy'n falch o wasanaethu fel Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Rydym am barhau yn yr ysbryd o gydweithio, mewn partneriaeth, i wneud ein gorau dros ein cymunedau a sicrhau newid ar gyfer y dyfodol.

Fel clymblaid rydym am ddatblygu ein cymoedd a'n pentrefi i gofleidio ethos y cyngor, gan edrych y tu hwnt i adfywio ffisegol i lywio gweithgarwch ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Rydym am wneud y defnydd gorau o gyllid a chyflawni nifer o raglenni y cytunwyd arnynt eisoes yn ystod 2022/23.

Yn ogystal â bod yn uchelgeisiol ar gyfer ein dyfodol, gwyddom fod pethau bach o bwys i drigolion a busnesau ac mae ein blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu hynny.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â thrigolion a busnesau. Byddwn yn lansio menter newydd – Dal i Sgwrsio – yr haf hwn er mwyn i ni allu esbonio beth rydym yn canolbwyntio arno a chymryd awgrymiadau, adborth a phryderon i lywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



**Cyng S K Hunt**
**Arweinydd y Cyngor**

Mae 2022/2023 wedi bod yn flwyddyn lle rydym wedi parhau i gael ein profi gan ddigwyddiadau allanol.

Arweiniodd goresgyniad Rwsia ar Wcráin, pwysau ynni a chwyddiant, yr effaith ar bobl leol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, ochr yn ochr â'r adferiad parhaus o bandemig Covid-19 at lefelau uchel o alw am wasanaeth a phwysau rhyfeddol ar gyllidebau cynghorau.

Mewn cyferbyniad, rydym hefyd wedi gweld cyfleoedd buddsoddi cyffrous ar gyfer ein bwrdeistref sirol gyda'r gobaith o filoedd o swyddi newydd dros y blynyddoedd i ddod ac yn croesawu buddsoddiad cyfalaf.

Mae darparu cefnogaeth i Glymblaid yr Enfys newydd a'n preswylwyr, a'n staff, wedi bod yn brif flaenoriaeth i ni dros y cyfnod hwn.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r cynlluniau a'r cyllidebau rydym wedi'u rhoi ar waith, gan barhau i gefnogi ein pobl a sicrhau bod y cyngor yn parhau i fod yn gynaliadwy.



**Mrs K Jones,**
**Prif Weithredwr**



# Myfyrdod 2022/2023

Mae’r sector cyhoeddus wedi wynebu cyfnod parhaus o ostyngiadau mewn lefelau ariannu ers dros ddeng mlynedd, mae maint y mesurau caledi a osodwyd gan Lywodraeth y DU hefyd wedi gweld toriadau dwfn mewn gwasanaethau a swyddi, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny a ddarperir o dan bwerau disgresiwn.

O fewn wythnosau i gytuno ar gyllideb 2022/23, ymosododd Rwsia ar Wcráin ac mae’r hyn sydd wedi datblygu ers hynny wedi newid ein hamgylchedd gweithredu yn sylweddol. Mae prisiau ynni wedi codi’n aruthrol, mae chwyddiant eisoes wedi cyrraedd lefelau nas gwelwyd ers y 1980au sy’n bwydo drwodd o ran costau contract a chostau eraill yn ogystal â chyfrannu at argyfwng costau byw ar draws ein holl gymunedau. Mae effaith gyfunol y pandemig a Brexit hefyd wedi cael effaith gymysg ar draws ein heconomi leol. Mae tarfu parhaus ar y gadwyn gyflenwi yn ychwanegu at bwysau costau. At hynny, mae’r farchnad lafur yn llawer mwy cystadleuol gyda chyfraddau diweithdra ôl-bandemig ar lefelau isel iawn a mwy o gyflogwyr yn ceisio llenwi swyddi nag sydd o bobl yn chwilio am waith.

Mae lefelau incwm wedi’u heffeithio gan y pandemig hefyd gyda llawer o drigolion wedi gwneud newidiadau sylweddol i’w ffordd o fyw yn ystod cyfnod y pandemig – mae hyn yn effeithio’n arbennig ar theatrau, meysydd parcio a gwasanaethau hamdden.

Ar nodyn cadarnhaol, mae'r fwrdeistref sirol yn gweld lefel ddigynsail o ddiddordeb gan fuddsoddwyr presennol a newydd. Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi cael gwybod bod Cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais consortiwm y Porthladd Rhydd Celtaidd gydag Associated British Ports (ABP) a Phorthladd Aberdaugleddau, sydd â’r potensial i greu hyd at 16,000 o swyddi newydd a denu hyd at i £5.5 biliwn o fuddsoddiad. Mae hyn ynghyd â nifer o gyflawniadau allweddol eraill yn sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn lle i fyw, gweithio a ffynnu ynddo.

Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth weithredu'r mentrau polisi amrywiol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Plaid Cymru/Llafur eleni. Er enghraifft, cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd; ac ehangu'r cynnig gofal plant am ddim. Gwnaed cynnydd da hefyd wrth symud ymlaen â blaenoriaethau a sefydlwyd gan Glymblaid yr Enfys gan gynnwys: dyrannu arian cyfalaf ychwanegol i wella'r parth cyhoeddus; dechrau adolygiad o'r penderfyniad i ad-drefnu addysg yng Nghwm Tawe.

# Llwyddiannau Allweddol ar gyfer 2022-2023

- Cyflwyno prydau ysgol am ddim i Flynyddoedd 1 a 2 (5 i 7 oed);
- 588 o blant yn elwa ar y cynnig gofal plant am ddim;
- Cynigiwyd 127 o leoliadau ychwanegol ar gyfer Cam 1 yr ehangu;
- Sefydlu Panel Amlasiantaethol y Blynyddoedd Cynnar (EYMAP) i sicrhau bod darpariaeth briodol yn ei lle ac yn cefnogi pontio i leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgol;
- Ymestyn y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion i sicrhau bod pob plentyn o flynyddoedd 1-13 yn cael mynediad at gefnogaeth;
- Lansio'r 'Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc' i sicrhau bod ymgysylltu ac ymgynghori gweithredol yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau, gan gadw plant a phobl ifanc wrth galon y gwaith cyflawni;
- Parhau i wneud cynnydd da ar gyflwyno Cwricwlwm i Gymru (Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021) ar draws Castell-nedd Port Talbot;
- Cynyddu nifer y Cydlynwyr Ardal Leol o 6 i 14 i gefnogi'r gymuned. Mae Cydlynwyr Ardaloedd Lleol yn gweithio gyda phreswylwyr i wneud cysylltiadau â rhwydweithiau cymorth lleol i wella llesiant a lleihau'r galw ar wasanaethau gofal ac iechyd;
- Cwblhau Cynllun Tai Cyflym i fynd i'r afael â digartrefedd dros y 5 mlynedd nesaf, gan ddarparu modelau llety a chymorth mwy ynaliadwy;
- Datblygu Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant a Chynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer Castell-nedd Port Talbot;
- Cyflwyno Cronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau gwerth £2.5m;
- Cefnogi 248 i gyflogaeth (llawn amser a rhan amser);
- 51 o unigolion wedi ymgymryd â Phrentisiaethau Modern o fewn Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda 59 o staff presennol pellach yn uwchsgilio gan ddefnyddio cyllid prentisiaeth;
- Derbyniodd cyrchfan antur £250m Wildfox gymeradwyaeth cynllunio;
- Cais y Porthladd Rhydd Celtaidd wedi'i gymeradwyo ar gyfer porthladdoedd Port Talbot ac Aberdaugleddau, gyda'r potensial i greu hyd at 16,000 o swyddi newydd a denu £5.5bn o fuddsoddiad;
- £17,755,359 wedi'i sicrhau drwy Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU ar gyfer Atyniad Ymwelwyr Coridor Treftadaeth Cwm Nedd;
- £32,660,854 wedi'i sicrhau drwy raglen Cronfa Ffyniant Gyffredin a Lluosi Llywodraeth y DU;
- Ar ôl i Lywodraeth y DU gymeradwyo achos busnes y Fargen Ddinesig, rydym wedi cael £47.7m o grant y Fargen Ddinesig ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a £15m ar gyfer y Rhaglen Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Parhau i gefnogi datblygiad y cynnig i greu Canolfan Fyd-eang o Ragoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn;
- Gweinyddu dros £9m o gyllid Llywodraeth y DU a Chymru drwy'r Cynllun Cymorth Tanwydd, Grant Gofalwyr Di-dâl a Chynllun Hunan-Ynysu;
- Partneriaeth wedi'i datblygu gyda Cymru Gynnes i gyflawni'r fenter £2m i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr argyfwng ynni;

- Nodwyd sawl 'Canolfan Glyd' fel lleoedd o fewn y gymuned lle gallai pobl ymgynnull i helpu i leihau pwysau costau ynni cartref eu hunain. Darparodd y cyngor lawer o'i adeiladau ei hun gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau hamdden a theatrau. Yn dilyn cyflwyno Cronfa Canolfannau Clyd Llywodraeth Cymru, mae 26 o sefydliadau lleol wedi cael cymorth pellach;
- 39 o sefydliadau wedi'u cefnogi drwy'r Grant Tlodi Bwyd, sef cyfanswm o £139,000 i dalu costau prynu bwyd ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn y galw, costau hyfforddi gwirfoddolwyr, costau cychwyn ar gyfer datblygu clybiau cinio, caffis cymunedol a gwasanaethau cynghori ynghylch cymorth tlodi bwyd;
- Wedi cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/2024 gan sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y gwasanaethau a ddarperir; a
- **Datgan Argyfwng Hinsawdd** – Derbyniodd a chefnogodd y cyngor hysbysiad o gynnig ar 28 Medi 2022 i ddatgan argyfwng hinsawdd ar ran Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyfan a galwodd ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud yr un peth.

  Wrth wneud hynny, cydnabu'r cyngor fod effeithiau newid hinsawdd i'w gweld eisoes ledled y byd gyda chorwyntoedd dwysach ac aml yn America, fflachlifoedd difrifol ym Mhacistan a sychder syfrdanol yn Tsieina nad ydym wedi'i weld ers cenedlaethau os o gwbl. Yn lleol, rydym wedi gweld llifogydd dirdynnol yn Sgiwen. Hefyd, ledled y fwrdeistref yn Aberdulais, Ystalyfera a Phort Talbot i enwi dim ond rhai. Ychwanegodd y tywydd poeth mwyaf erioed ym mis Gorffennaf 2022 bwysau ychwanegol ar drigolion lleol a stormydd dinistriol sydd wedi arwain at ffocws rhanbarthol gwell ar waith amddiffyn rhag y môr ledled y fwrdeistref.

  Mae effaith newid yn yr hinsawdd ar garreg drws yn niweidiol i drigolion Castell-nedd Port Talbot ac mae'n bryd i ni fynnu newid.

Nid yn unig ar gyfer ein cenhedlaeth ond ar gyfer ein plant a'n hwyrion a phawb sy'n dilyn. Mae'r cloc yn tician ar danwyddau ffosil felly gadewch inni beidio â bod y ffyliaid sy'n gorffwys ar ddiffyg gweithredoedd eraill ond yn hytrach yn olrhain ac yn gwella llwybr adnewyddadwy ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r rhaglen newid strategol hon wedi'i diweddaru yn nodi rhai camau gweithredu a fydd yn helpu rhoi'r ymrwymiad a wnaed ar 28 Medi 2022 ar waith. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawnach o'i Gynllun Corfforaethol cyn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2024 ac erbyn hynny byddwn wedi mynegi'r camau ehangach y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Bydd hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

* Rhoi cyhoeddusrwydd i argyfwng hinsawdd a hybu mwy o ymwybyddiaeth o wirionedd newid hinsawdd ymhlith y boblogaeth leol;
* Gweithio gydag arbenigwyr perthnasol mewn ymchwil a datblygu i:
  - » Adolygu ein strategaethau a'n cynlluniau gweithredu presennol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
  - » Nodi unrhyw newidiadau polisi neu gamau gweithredu pellach y gallem eu cymryd, o fewn cwmpas ein pwerau a'n hadnoddau, i gwrdd â her yr argyfwng hinsawdd;
  - » Ceisio cymorth partneriaid lleol a chyrff ymchwil eraill i egluro i'r gwaith cymunedol sydd eisoes ar y gweill a'r cyflawniadau a wnaed eisoes, yn ogystal â thargedau ar gyfer y dyfodol.

Bydd rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan y cyngor yn 2022-23 yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod hwnnw a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

## Ein Ffocws ar gyfer 2023/2024

Wrth i ni symud i 2023/2024, mae'r cyngor wedi pennu ei gyllideb refeniw yn seiliedig ar bum maes allweddol ac ailadroddir y rhain isod. Mae'r rhaglen newid strategol ddiwygiedig yn adlewyrchu'r penderfyniadau cyllidebol ac mae hefyd yn ymgorffori blaenoriaethau lleol Clymblaid yr Enfys ar gyfer 2023-24. Mae'r rhain wedi'u gosod yn gadarn yng nghyd-destun ymrwymiad digamsyniol i gymryd camau i ymateb yn llawn i'r argyfyngau hinsawdd a natur fel y nodir yn y Cynnig i'r Cyngor y cyfeiriwyd ato ar y dudalen flaenorol.

### 1. Cynnal ffocws clir ar adferiad o Covid-19

O ganlyniad i Covid-19, y cyfnod ymateb a'r polisïau cysylltiedig a ddaeth i'r amlwg, mae llawer mwy o alw/angen yn y gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr angen.

Nid yw'n glir eto pryd y bydd y cynnydd mewn galw/angen yn cyrraedd uchafbwynt, na goblygiadau unrhyw effeithiau tymor hwy sydd eto i'w datgelu. Gan fod gan y cyngor lawer o ddyletswyddau statudol i'w cyflawni mewn perthynas â'r bobl yr effeithir arnynt, mae'n hanfodol ein bod yn gallu parhau i ganolbwyntio ar ein gwaith adfer er mwyn atal mwy o achosion rhag gwaethygu i bwynt o argyfwng pan fyddai angen dod o hyd i atebion llawer drutach.

Effeithiwyd ar lawer o wasanaethau oherwydd y camau a gymerwyd yn ystod yr ymateb i Covid-19 lle gofynnwyd i'r cyngor ail-ddefnyddio staff, cyfleusterau ac adnoddau eraill i gefnogi amcanion y llywodraeth i amddiffyn y GIG ac i achub bywydau. Wrth symud ymlaen mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chanlyniadau'r effeithiau hyn drwy gydol 2023-24.

### 2. Cefnogi ein cymunedau trwy argyfwng costau byw

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2022-23 roeddem eisoes yn gweld arwyddion o galedi ariannol ar draws cymunedau. Mae'r argyfwng ynni a'r cynnydd enfawr mewn chwyddiant wedi gweld llawer mwy o drigolion a busnesau yn profi caledi ariannol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Mae'r cyngor wedi chwarae rhan sylweddol wrth sicrhau bod cymorth ariannol gan y llywodraeth yn cyrraedd y rhai sy'n gymwys ar gyfer y cymorth hwnnw; ac mae'r cyngor bellach wedi sefydlu partneriaeth gyda Cymru Gynnes, gan ddatgloi'r £2 filiwn a neilltuwyd ar amser gosod cyllideb i gynorthwyo'r rhai sy'n profi'r caledi mwyaf ond nad ydynt yn gallu ceisio cymorth o ffynonellau eraill. Mae cymorth ymarferol ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy ail-bwrpasu dros 30 o adeiladau'r cyngor i helpu pobl i gael mynediad at le cynnes a chymorth; rydym yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo pob math arall o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sydd ei angen; a rhoi mwy o ffocws ar lefel gymunedol i chwilio am y rhai mwyaf agored i niwed a chysylltu'r rhain â chymorth a chefnogaeth yn agos i'w cartrefi. Mae Partneriaeth Diogel ac Iach Castell-nedd Port Talbot wedi'i hail-bwrpasu i gydgysylltu gwaith y cyngor gyda phartneriaid a'r gweithredu cymunedol ehangach sy'n digwydd.

Mae'r rhagolwg uniongyrchol yn 2023-24 yn un o galedi parhaus i drigolion a bydd angen i'r cyngor barhau i chwarae ei ran i gefnogi trigolion dros y cyfnod hwn.

## 3. Hwyluso a Galluogi Twf Economaidd

Rydym yn falch o fod yn ymdrin â phortffolio cynyddol o fentrau datblygu economaidd mawr. Mae'r rhain yn cynnwys: buddsoddiad arfaethedig o £250 miliwn mewn cyrchfan antur yng Nghwm Afan; buddsoddiad arfaethedig o £200 miliwn mewn Canolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghwm Dulais; Porthladd Rhydd posibl yn cwmpasu porthladd Port Talbot a Phorthladd Aberdaugleddau a fyddai'n denu cyfalaf sbarduno o £25 miliwn ac o bosibl £0.5 biliwn mewn ardrethi busnes a gedwir ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith caled a meddal dros gylch oes y rhaglen; rhaglen fuddsoddi gwerth £32 miliwn dros weddill y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf drwy'r Cronfeydd Ffyniant Gyffredin a Lluosogi: darpariaeth barhaus rhaglen y Fargen Ddinesig; ynghyd â'r potensial i dynnu arian cyfalaf sylweddol i lawr i gefnogi arloesi a datblygiadau tai a'r posibilrwydd o rywfaint o lwyddiant gyda'n tri chais i'r Gronfa Ffyniant Bro.

Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda o ran cefnogi'r mentrau hyn ond bydd angen iddo gynyddu'r buddsoddiad yn ei swyddogaethau twf economaidd i sicrhau bod y portffolio hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bobl leol a chadwyni cyflenwi lleol.

## 4. Cyflawni blaenoriaethau polisi lleol a Llywodraeth Cymru

Rydym yn ail flwyddyn tymor presennol y Senedd ac ym mlwyddyn gyntaf tymor llywodraeth leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhaglen helaeth o ymrwymiadau polisi a fydd yn effeithio ar gynghorau. Drwy ein gwaith i gyflawni ein hamcanion llesiant, rydym yn bodloni'r gofynion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol.

Mae gan Glymblaid yr Enfys hefyd ei blaenoriaethau polisi ei hun sy'n cael eu gweithredu ac sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen gyflawni hon sy'n cefnogi ein Cynllun Corfforaethol.

## 5. Sicrhau Cyngor cynaliadwy


Bu newid sylweddol i amgylchedd gweithredu'r cyngor dros y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhagolygon cyllideb sydd wedi newid yn fawr, y cyfyngiadau ar y gweithlu a chyflymder y newid yn cyfuno i herio'r model gweithredu presennol.

Dros y tymor canolig, bydd angen i'r cyngor ddilyn strategaeth gadarn a fydd yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau a swyddogaethau eu darparu o fewn fframwaith clir o flaenoriaethau, tra hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol a llywodraethu da.

# Diben, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae diben, gweledigaeth, gwerthoedd, perthnasoedd a blaenoriaethau'r cyngor wedi'u hailosod a'u hadnewyddu gan ystyried:

- yr hyn sy'n bwysig i bobl leol, busnesau a'n gweithwyr;
- yr effaith y gwyddom y mae Covid-19 wedi'i chael ar ein cymunedau, ein heconomi leol a rhanddeiliaid ehangach;
- y gwersi yr ydym wedi'u dysgu o'n hymateb i'r pandemig ac o fannau eraill; a
- newidiadau eraill a ragwelir yn ein hamgylchedd allanol.




## Ein Gweledigaeth

Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy.
Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n treftadaeth lleol
Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad i swyddi gwyrdd o ansawdd uchel.

## Gwerthoedd

**Cysylltiedig**
mae beth sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni.

**Gofalgar**
rydyn ni'n gofalu amdanoch chi, eich bywyd a dyfodol ein bwrdeistref sirol.

**Cydweithredol**
rydyn ni'n gweithio gyda'n dinasyddion a'n partneriaid oher-wydd bod modd i ni gyflawni mwy gyda'n gilydd.

**Hyderus**
rydyn ni'n optimistaidd ac yn hyderus ynghylch y dyfodol.

## Pwrpas


Helpu trigolion CNPT i fyw bywydau da.

# Rhaglen Newid Strategol

Bydd ein hymrwymiad parhaus i'r Rhaglen Newid Strategol yn gyrru'r gwaith yr ydym yn ei wneud i gyflawni ein gweledigaeth yn ei flaen. Trefnir hyn ar dair lefel:

**Lefel strategol** – Byddwn yn parhau i roi rhaglen newid strategol ar waith i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull strategol 'un cyngor' o gyflawni'r weledigaeth. Mae'r amcanion llesiant allweddol yn cynnwys:

- Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Mae pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy;
- Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant lleol;
- Swyddi a sgiliau – mae pobl leol yn fedrus ac yn gallu cael mynediad at swyddi gwyrdd o ansawdd uchel; a
- Rhaglen Galluogi – Datblygiad Sefydliadol.





**Lefel gorfforaethol** – mae strategaethau corfforaethol yn cael eu hail-alinio i gefnogi cyflawni'r weledigaeth a chyflawni'r rhaglen newid strategol.

**Lefel weithredol** – Mae pob gwasanaeth a swyddogaeth o fewn y cyngor yn alinio eu cynlluniau adfer gwasanaeth i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni'r weledigaeth yr ydym wedi'i gosod.

NOD LLESIANT 1

# Dechrau gorau mewn bywyd

*Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd*



## Ymhen 20 mlynedd...

- Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn:

  * ddysgwr uchelgeisiol, galluog;

  * cyfrannwr mentrus, creadigol;

  * ddinesydd moesegol, gwybodus; a

  * unigolyn iach, hyderus.

- Bydd diwylliant a rennir ar draws y fwrdeistref sirol sy'n cefnogi dyhead ac uchelgais ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc;
- Bydd anghydraddoldebau mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd wedi lleihau;
- Bydd pob teulu mewn angen yn cael mynediad at gymorth cynnar o ansawdd uchel a gwasanaethau cymorth a bydd y rhain yn sicrhau bod plant yn barod ar gyfer dysgu pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol a bod teuluoedd yn cael eu helpu i symud allan o dlodi;
- Byddwn wedi cwblhau rhaglen ad-drefnu ysgolion a bydd gennym yr ysgolion cywir yn y lle iawn ac mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael mynediad i'r ysgolion sy'n iawn iddynt, y tro cyntaf, bob tro;
- Bydd y cyngor yn cael gwared yn systematig ar y rhwystrau i ddysgu a dyhead trwy gynnull a gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ac asiantaethau eraill sy'n cyffwrdd â bywydau plant a phobl ifanc;
- Byddwn wedi creu amgylchedd sy'n sicrhau mynediad i ddysgu a chyfleoedd i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial a'u huchelgais;
- Byddwn yn hyrwyddo anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed ac sydd dan anfantais, ac yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd, ysgolion a chymunedau;
- Byddwn wedi creu amgylcheddau lle mae dysgu yn brofiad diogel, meithringar a boddhaus ym mhob lleoliad, lle mae parch a sylw dyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod ysgolion a darparwyr eraill yn diwallu anghenion dysgu eu holl ddisgyblion a myfyrwyr, gan adeiladu cyfalaf proffesiynol a chyfrifoldeb ar y cyd drwy'r system gyfan a sicrhau bod llythrennedd a rhifedd wrth wraidd datblygiad dysgwyr; a
- Bydd Castell-nedd Port Talbot yn fan lle mae pobl eisiau gwneud bywyd, setlo a magu eu teulu eu hunain.



## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae Covid-19 yn parhau i gael effaith andwyol sylweddol ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i darfu ar eu dysgu yn ystod y pandemig. Mae'r effaith hon yn effeithio ar eu datblygiad cymdeithasol a'u lles corfforol a meddyliol. Yn ogystal, pwysau teuluol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

- Mae 35% o blant oed ysgol yn byw yn yr 20% o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru;
- Mae gan 28% o ddisgyblion oed ysgol hawl i brydau ysgol am ddim;
- Mae cyfraddau presenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd yn 89.17% ac 85.31% ar gyfer ysgolion uwchradd (blwyddyn academaidd 2021/2022);
- Mae 334 o blant yn cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd;
- Yn 2022, ni chyflawnodd 47.3% o ddisgyblion Blwyddyn 11, a oedd yn gymwys i gael prydau am ddim, radd C neu uwch mewn iaith Saesneg/Cymraeg na mathemateg/rhifedd mathemateg;
- Mae gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu gwahardd o ysgolion am gyfnod penodol a pharhaol;
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer cynlluniau statudol awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan ddangos y galw a chymhlethdod yr angen;
- Ni chyflawnodd 24% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn 2022 radd C neu uwch mewn Saesneg/Cymraeg, mathemateg/rhifedd mathemateg a gwyddoniaeth;
- Mae 2,237 o bobl ifanc 16-24 oed yn economaidd anweithgar yng Nghastell-nedd Port Talbot – mae rhai o'r rhain yn ystyried eu hunain yn anaddas i weithio oherwydd problemau iechyd meddwl; a
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed y bydd 1 miliwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050 ac mae angen i ni chwarae ein rhan i helpu i gyflawni hyn.

## Beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc?

Clywsom gan bron i 1,800 o bobl yn ystod ein hymgyrch Dewch i Sgwrsio 2021 ac fe fynegont eu barn am yr hyn sy'n bwysig iddynt yn awr a'r hyn sy'n bwysig iddynt wrth iddynt feddwl am eu dyfodol. Roedd themâu clir o'u hymatebion:

- Bod yn ddiogel;
- Bod yn hapus;
- Bod â bywyd cartref sefydlog;
- Treulio amser gyda theulu, ffrindiau ac anifeiliaid anwes;
- Ysgol – cael addysg dda;
- Tyfu i fyny i fod yn gryf ac iach;
- Cael parciau, cyfleusterau chwaraeon a gwasanaethau ieuenctid eraill o ansawdd da;
- Cael digon o arian;
- Gallu cael swydd a gallu fforddio byw mewn llety gweddus; a
- Bysiau fforddiadwy i gael mynediad at wasanaethau.

## Dechrau Gorau mewn Bywyd – Symud Ymlaen

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein plant ieuengaf wedi'u paratoi'n well ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol. | • Gweithio gyda'r sector gofal plant a phartneriaid i ddatblygu cynnig Blynyddoedd Cynnar tecach i sicrhau bod ein dysgwyr ieuengaf yn trosglwyddo i'r ysgol yn llwyddiannus.<br>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector i gynyddu mynediad at ofal plant. |
| Cwblhau'r broses o gyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) Llywodraeth Cymru ar gyfer pob disgybl cynradd. | • Galluogi mynediad i UPFSM ar gyfer holl ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 erbyn tymor yr haf 2023, ac erbyn Ionawr 2024 ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6. |
| Gwell cyfleusterau i bobl ifanc gan gynnwys gwell gwasanaethau chwarae a hamdden. | • Gwella cyfleoedd chwarae a hamdden rhad ac am ddim a chost isel i blant a phobl ifanc. |
| Mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc wedi'u halinio ar draws sectorau fel bod anghenion plant a theuluoedd yn cael eu nodi'n gynnar a bod cymorth yn gydgysylltiedig ar draws asiantaethau ac yn gwella. | • Gweithio i ddatblygu ymgysylltiad rhieni yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot fel bod yr ysgolion wrth galon eu cymuned.<br>• Sicrhau bod cymorth a chefnogaeth gynnar a gynigir i blant a theuluoedd yn cael ei gyfathrebu'n glir.<br>• Bydd yr hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu ein gwasanaethau.<br>• Sicrhau bod plant sydd angen eu hamddiffyn yn cael eu diogelu a'u bod yn gallu tyfu i fyny mewn teulu cariadus a sefydlog. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mae'r plant yn gwybod ac yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. | • Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes a chefnogi ein hysgolion i ymgorffori fframwaith ar gyfer Hawliau Plant. |
| Wedi datblygu ein Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion gan gynyddu nifer yr amgylcheddau dysgu ac addysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif sydd ar gael i blant a phobl ifanc. | • Cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Amlinellol Strategol.<br>• Datblygu ein cynigion Band C ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.<br>• Gorffen yr adolygiad o drefniadaeth ysgolion yng Nghwm Tawe. |
| Mae diwygiadau addysg yn ymwneud â'r cwricwlwm a chymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'u gwreiddio a bydd y newidiadau hyn yn codi safonau ar draws ein system addysg. | • Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid a'u cefnogi i sicrhau eu bod mewn cyfnod priodol o barodrwydd ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn unol â Chwricwlwm i Gymru (Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru 2021). |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 yn llawn ar draws yr Awdurdod Lleol ac mewn ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot gan godi safonau ar draws ein system addysg. | • Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol (ALI) ac ysgolion yn trosi pob Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) o fewn yr amserlenni penodedig.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol (ALI) yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran darparu cynnig teg o ddarpariaeth ôl-16 i bobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>• Fframwaith sicrhau ansawdd cadarn yn ei le i fonitro ac adolygu effaith Cynlluniau Datblygu Unigol. |
| Dull cydgysylltiedig o ddiwallu anghenion iechyd meddwl a lles ein plant a'n pobl ifanc. | • Gweithio'n agos gydag ysgolion ac asiantaethau partner i sicrhau bod y Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd a Lles Emosiynol wedi'i wreiddio ar draws yr Awdurdod. |
| Cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unol â'n targedau o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. | • Cynyddu niferoedd disgyblion Meithrin i 331 (22.8%) a Blwyddyn 1 i 308 (21%). |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Darparu cyfleoedd i alluogi pob dysgwr, teulu a gofalwr i elwa ar y cyfle i ddysgu, gwerthfawrogi a siapio eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. | • Cyflwyno cynllun gweithredu 5 mlynedd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a dechrau datblygu targedau.<br>• Sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynyddu hyder yn yr iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo diwylliant a hanes modern Cymru, trwy ymgysylltu â Champws y Siarter Iaith.<br>• Cynnal archwiliad i weld pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o fewn yr ALI (o fewn yr ysgol ac yn y gymuned) a bydd bylchau daearyddol yn cael eu hadnabod a'u llenwi h.y. darpariaeth gan yr Urdd, PASS, Gwasanaeth Ieuenctid ac ati.<br>• Cynnal archwiliad o gyfleoedd dysgu i ddysgwyr di-Gymraeg, rhieni/ gofalwyr a neiniau a theidiau neu rai sy'n betrusgar yn yr iaith. |
| Lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol. | • Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau bod cymaint o ddisgyblion â phosibl yn ailgysylltu ac yn ymgysylltu'n ffisegol â'r ysgol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Gwella presenoldeb disgyblion. | • Gwella presenoldeb yn y cyfnod cynradd ac uwchradd, a ffocws penodol ar bresenoldeb grwpiau agored i niwed. |
| Wedi rhoi rhaglen addysgu ar waith fel bod pob ysgol yn gallu cael mynediad i'r rhaglen gan greu cymunedau cyffrous ac arloesol o athrawon sy'n gallu cefnogi ei gilydd a dysgu gyda'i gilydd. | • Parhau i gefnogi athrawon trwy ddysgu proffesiynol o'r amser y maent yn penderfynu dod yn athrawon trwy gydol eu gyrfa. Bod ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn parhau i dyfu fel sefydliadau dysgu. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu dysgu proffesiynol yn ein cynllun cyfarwyddiaeth a sicrhau ei fod wrth wraidd yr agenda ddiwygio.<br>• Ymdrechu i bob disgybl yng Nghastell-nedd Port Talbot wireddu'r 4 diben oherwydd addysgu rhagorol. |
| Datblygu rhaglen arweinyddiaeth a golwg hirdymor ar 'nodi talent' a meithrin arweinwyr y dyfodol gyda rhaglen o hyfforddi a mentora unigol. | • Gweithio i ddatblygu arweinwyr ysbrydoledig yn gweithio ar y cyd i godi safonau. Byddwn yn cefnogi arweinwyr ysgol i fynegi'n well yr hyn y maent yn ei wneud a pham y maent yn ei wneud yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn eu cefnogi i arwain ysgolion cryf a chynhwysol lle mae diwylliant o ddysgu proffesiynol a chydweithio yn ganolog i wella ysgolion. Bydd Castell-nedd Port Talbot yn cynhyrchu arweinwyr ysgol a fydd yn gallu cefnogi ei gilydd i wella a chyfrannu at welliannau addysgol ledled Cymru. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Bydd mwy o bobl ifanc wedi cofrestru i bleidleisio ac yn defnyddio eu pleidlais yn etholiadau Cymru. | • Cynnal negeseuon allweddol wedi'u targedu gyda phobl ifanc 16-17 oed gyda phapur wedi'i ddylunio'n arbennig a deunyddiau ar-lein ar gyfer dosbarthiadau.<br>• Parhau i gysylltu â grwpiau mewnol Castell-nedd Port Talbot gan gynnwys y rhwydwaith cymorth Cydlynu Ardal Leol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, rhwydwaith Cymuned Ymarfer, Cyswllt Teithwyr, Cyngor Ieuenctid a Maer Ieuenctid yn ogystal â'r timau Cyfathrebu, Marchnata a Digidol.<br>• Cynnal cysylltiadau a phartneriaethau newydd gyda grwpiau a sefydliadau allanol gan gynnwys y rhwydwaith Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Eiriolaeth Eich Llais, Blwch Democratiaeth, grwpiau cymunedol Mwslimaidd lleol, grwpiau cymunedol BAME, cyfryngau lleol, Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol.<br>• Cynllunio o amgylch dyddiadau allweddol i helpu gydag ymgyrchoedd hyrwyddo a diwrnodau ymwybyddiaeth eraill i gynorthwyo gwaith wyneb yn wyneb (lle bo'n bosibl) yn ogystal â gweithgaredd ar-lein.<br>• Defnyddio cyfryngau hysbysebu traddodiadol fel radio lleol yn ogystal â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a chysylltu ag adnoddau a ddyluniwyd yn arbennig a gefnogir gan y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru lle mae cyllid grant yn parhau i fod ar gael. |
| Mae gweithdrefnau diogelu a chymorth cryf ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc. | • Cyflwyno cynigion i ddatblygu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ymhellach. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mae trefniadau ar gyfer cefnogi pobl ifanc pan fyddant yn gorffen eu haddysg statudol yn cael eu gwella gyda phob plentyn yn mynd ymlaen i hyfforddiant, addysg neu waith. | • Gweithio gyda phartneriaid i gynnal ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ac i leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br>• Cefnogi pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn i symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu addysg neu waith.<br>• Cynyddu nifer y cyfleoedd profiad gwaith a phrentisiaeth a gynigir gan y cyngor a chyflogwyr lleol i bobl ifanc. |
| Bydd gan bob person ifanc sy'n gadael gofal fynediad i lety priodol cynaliadwy. | • Adeiladu ar ein rôl fel rhieni corfforaethol a helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i gael cymorth pontio priodol. |
| Cefnogi gofalwyr ifanc i fanteisio ar gyfleoedd. | • Archwilio beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi gofalwyr ifanc. |

## Gwneud Gwahaniaeth

Bydd y mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio i ddangos cynnydd yn ystod 2023/2024. Gan ddefnyddio data Ebrill 2022 fel llinell sylfaen, gallwn olrhain cynnydd hyd yma a phennu ein trywydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarperir. | 2339 | Cynnydd |
| % y plant 5 oed sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. | 18.5% | Cynnydd |
| % disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf. | 12.70% (Blwyddyn Academaidd 21/22) | Cynnydd |
| % y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 sy'n NEET. | 2.41% | Lleihad |
| % presenoldeb disgyblion yn yr ysgol gynradd. | 89.23% (Blwyddyn Academaidd 21/22) | Cynnydd |
| % presenoldeb disgyblion yn yr ysgol uwchradd. | 85.52% (Blwyddyn Academaidd 21/22) | Cynnydd |
| Nifer o ddisgyblion wedi eu heithrio’n barhaol. | 19 (Blwyddyn Academaidd 21/22) | Lleihad |
| Nifer o diwrnodau y mae ddysgyblion wedi eu heithrio am ddyddiau penodol | 2543 (Blwyddyn Academaidd 21/22) | Lleihad |
| Nifer o bobl 16-18 oed sydd wedi cofrestru i bleidleisio. | 1833 | Cynnydd |

## Cynlluniau Cysylltiedig a Phartneriaethau

| Cynlluniau | Partneriaethau |
|---|---|
| • Cynllun Llesiant Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot<br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth Meddwl am Deuluoedd Castell-nedd Port Talbot<br>• Rhwydwaith Dysgu Oedolion Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Chwaraeon Ardal Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth – Consortiwm Addysg Rhanbarthol<br>• Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-Orllewin Cymru |

**NOD LLESIANT 2**

## Mae pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy

*Mae pobl yn byw bywydau iach, hir a da mewn cymunedau ffyniannus a chynaliadwy lle mae pobl yn cyd-dynnu a chefnogi ei gilydd*



## Ymhen 20 mlynedd...

- Mae pob cymuned yn ffynnu;
- Mae anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, economaidd a chymdeithasol wedi lleihau;
- Mae pobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, mae mwy o bobl yn ymwneud â bywyd cymunedol;
- Mae pobl yn croesawu newydd-ddyfodiaid ac yn trin ei gilydd â pharch; mae pob unigolyn yn cael ei gynnwys ac mae ganddo lais cyfartal;
- Gall pobl gael mynediad at dai o ansawdd da, fforddiadwy, carbon isel yn eu cymuned;
- Mae pobl yn gysylltiedig o fewn eu cymuned; a chymunedau wedi'u cysylltu â'i gilydd a'r byd ehangach trwy wasanaethau digidol a rhwydweithiau trafnidiaeth o ansawdd da;
- Mae pobl yn wydn; maent yn parchu ac yn gofalu am eu hamgylchedd a gallant ddod at ei gilydd a gweithredu ar adegau o argyfwng;
- Mae cymunedau yn gyfeillgar i oed ac anabledd;
- Mae cymunedau'n ddymunol, yn lân, yn ddiogel ac yn wyrdd;
- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu cefnogi yn eu cymuned trwy amrywiaeth o rwydweithiau gofal a chymorth anffurfiol a ffurfiol;
- Gall cymunedau gael mynediad at ystod o wasanaethau o safon sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd; a
- Mae cymunedau'n elwa ar ddyluniad o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu treftadaeth a nodweddion unigryw pob lle.

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar lawer o bobl gyda mwy o bobl yn mynd yn unig ac yn ynysig. Bu effaith anghymesur ar bobl ifanc, menywod a phobl o gefndiroedd BME;
- Roedd 142,300 o bobl yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2021. Disgwylir i hyn dyfu i 147,000 erbyn canol y 2030au;
- Mae'r boblogaeth yn heneiddio – mae nifer y bobl sydd wedi ymddeol yn cynyddu ond mae nifer y bobl ifanc yn gostwng;
- Mae pobl yn byw'n hirach ac yn byw bywydau iachach ond mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iechyd yn is na gweddill Cymru ac mae'r bwlch rhwng y rhai sydd orau eu byd a'r rhai sydd waethaf eu byd yn sylweddol;
- Mae GVA (Gwerth Crynswth Ychwanegol) yn is na chyfartaledd Cymru;
- Amcangyfrifir bod dros 20,000 o ofalwyr di-dâl yn y fwrdeistref sirol;
- Mae angen mwy o dai fforddiadwy o ansawdd da;
- Disgwyliwn weld cynnydd o 35% yn y rhai 65+ oed a fydd yn byw ar eu pen eu hunain erbyn 2035; a
- Gan weithio gyda sefydliadau partner, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ceisiadau gan breswylwyr sy’n chwilio am gymorth gyda Thaliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP), taliadau tanwydd, mynediad at fanciau bwyd a rheoli dyled.

## Beth sy'n bwysig i bobl?

Clywsom gan bron i 1,800 o bobl yn ystod ein hymgyrch Dewch i Sgwrsio. Yn ystod cyfnodau clo, mae pobl wedi ailddarganfod pwysigrwydd eu teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach. Mae'r hyn a ddywedont sy'n bwysig iddynt yn awr ac wrth inni edrych ymhellach i'r dyfodol wedi'i nodi isod:

- Cyswllt a gallu treulio amser gyda theulu, ffrindiau ac anifeiliaid anwes;
- Bod yn ddiogel;
- Bod yn iach a gwneud yn siŵr bod teulu a ffrindiau yn iach; mynediad da at wasanaethau iechyd;
- Bod â swydd ddiogel a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith;
- Mae plant yn cael mynediad i addysg dda ac mae ysgolion yn aros ar agor;
- Cael perthnasoedd da o fewn y gymuned a chael digwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd;
- Y celfyddydau, ein diwylliant a'n treftadaeth;
- Gwell gwasanaethau bws;
- Strydoedd a mannau gwyrdd glanach sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well;
- Mwy o gyfleusterau hamdden awyr agored a rhatach;
- Mwy o gefnogaeth a chyfleusterau i bobl ifanc;
- Sicrhau bod yr henoed a phobl agored i niwed yn cael eu cefnogi; a
- Gwell rhyngweithio gyda'r cyngor.





## Mae pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy – Symud Ymlaen

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Rhoddir cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu risg neu'n byw mewn tlodi. | • Sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth a chefnogaeth gyda chostau byw yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno a nodi bylchau mewn cymorth a chefnogaeth a sut y gellid mynd i'r afael â'r bylchau hynny.<br>• Ailedrych ar y gwaith a wnaed gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan, ailosod yr amcanion strategol a'r camau gweithredu i fynd i'r afael â gwraidd tlodi.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i helpu pobl sy'n profi caledi i wella eu hamgylchiadau.<br>• Nodi sut y gall y cyngor ddod â'i wasanaethau yn nes at ble mae pobl yn byw, gan helpu cynnal cyfleusterau lleol allweddol sy'n gweithredu fel canolfannau cymunedol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda chymunedau i ddatblygu dealltwriaeth glir a manwl o'r hyn sy'n gryf am bob cymuned a'r hyn y mae cymunedau am ei gyflawni ar gyfer y dyfodol. Mae pobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; mwy o bobl yn ymwneud â bywyd cymunedol. | • Datblygu ein gwaith ymhellach ar lefel cymdogaeth, gan fapio asedau lleol (beth sy'n gryf am bob cymuned) a mapio gwendidau cymunedol.<br>• Cydlynu cyfleoedd ariannu ar gyfer cymunedau yn seiliedig ar fodel/ anghenion sy'n seiliedig ar le.<br>• Cynyddu nifer y bobl sy'n cael cymorth i gysylltu â rhwydweithiau gwybodaeth, gofal a chymorth lleol drwy weithio'r gymuned a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd.<br>• Creu rhwydwaith o fforymau cymdogaeth i gynyddu cyfleoedd i bobl leol gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a darparu mwy o gefnogaeth i waith cynghorwyr lleol yn eu ward.<br>• Parhau i hyrwyddo a datblygu ein menter 'Prynu'n Lleol yn CNPT', gan annog pobl leol i gefnogi eu busnes lleol.<br>• Dechrau cymryd y camau a fydd yn rhoi ein hymrwymiad i'r siarter creu lleoedd ar waith. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Gwella ystod ac ansawdd y cymorth anffurfiol a ffurfiol i breswylwyr oedrannus a diamddiffyn, gan gynnwys gofalwyr di-dâl. | • Cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a phlant ymhellach. |
| Wedi gweithio gyda'r gymuned i atal problemau rhag digwydd neu waethygu. | • Parhau i weithio drwy ein partneriaeth diogelwch cymunedol i fynd i'r afael â'r problemau a achosir gan alcohol, cyffuriau anghyfreithlon, cam-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Cynnal digwyddiadau ymgysylltu i hyrwyddo diogelwch cymunedol ac ymgyrchoedd/mentrau sy'n ymwneud ag atal trosedd. |
| Cefnogi datblygiad mwy o grwpiau cymunedol gyda chynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr. | • Darparu cyllid sbarduno ar gyfer mentrau cymunedol a gwirfoddol sy'n cryfhau ymyrraeth gynnar a chymorth atal ar lefel cymdogaeth.<br>• Gweithio ochr yn ochr â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i annog a datblygu ymhellach grwpiau cymunedol a gwirfoddol ar draws y fwrdeistref sirol.<br>• Cwblhau Polisi Gwirfoddoli'r Cyngor i annog a chefnogi staff y cyngor i wirfoddoli. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Datblygu ein cymoedd, pentrefi a threfi. | • Parhau â'r fenter Dal i Fyny, Glanhau, Glasu ac ymestyn gwaith i wella glendid, amgylchedd a diogelwch trefi, pentrefi a chymoedd.<br>• Cryfhau ein gwasanaethau rheoli cymdogaethau.<br>• Sicrhau ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol o'r hyn sy'n cael ei ddarparu mewn cymoedd, pentrefi a threfi.<br>• Cytuno ar sut y gellir datblygu cynlluniau lleoedd i lywio gweithgarwch yn y blynyddoedd i ddod, gan sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn dod ag adfywiad ffisegol o fewn cynnig ehangach y cyngor a thargedu cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a ffynonellau ariannu eraill yn ofalus.<br>• Adnewyddu'r Compact gyda'r sector gwirfoddol a'r Siarter gyda Chynghorau Tref a Chymuned.<br>• Creu cynlluniau lle ar gyfer y 3 thref a 2 ganolfan dosbarth ac ailosod trefniadau cydweithio rhanddeiliaid canol tref i sicrhau ymgysylltiad effeithiol gan y cyngor.<br>• Cytuno ar sut y gellir datblygu dyheadau canol tref a'u bwydo i mewn i gynlluniau tymor hwy a chyfleoedd ariannu.<br>• Gwella ansawdd y parth cyhoeddus. |
| Bydd staff y Cyngor yn deall egwyddorion datblygu cymunedol a bydd ganddynt y sgiliau a'r hyder i roi'r egwyddorion hynny ar waith. | • Datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer staff mewn perthynas ag egwyddorion datblygu cymunedol. Sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hyderus yn eu darpariaeth. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda datblygwyr i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a charbon isel o safon; helpu trigolion i leihau allyriadau carbon eu cartrefi. | • Gweithio'n agos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gynyddu nifer yr unedau llety interim a symud ymlaen.<br>• Gweithredu'r Cynllun Tai Cyflym.<br>• Cyflwyno cynigion i gryfhau swyddogaeth ein strategaeth dai a chynyddu nifer yr unedau tai. Blaenoriaethu'r rhai mewn llety dros dro sydd angen tai fforddiadwy a thai ar gyfer y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth. |
| Gwell cysylltedd digidol ar draws Castell-nedd Port Talbot. | • Parhau i ddarparu cefnogaeth i'r rhai nad ydynt yn gallu cyrchu'r rhyngrwyd. |

## Gwneud Gwahaniaeth

Bydd y mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio i ddangos cynnydd yn ystod 2023/2024. Gan ddefnyddio data Ebrill 2022 fel llinell sylfaen, gallwn olrhain cynnydd hyd yma a phennu ein trywydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| Nifer y gwirfoddolwyr gweithgar (Diogel ac Iach). | 12 | Cynnydd |
| Nifer oriau gwirfoddolwyr (Diogel ac Iach). | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer y mentrau cymdeithasol a micro a gefnogir. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer yr asedau cymunedol y mae'r gymuned yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| % cynnydd mewn lles meddwl oedolion. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer y bobl a gefnogir i gyflogaeth gyda chyflwr iechyd/anabledd hirdymor. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer y llesiant hunan-gofnodedig yn dilyn cyfnod o ymyrraeth trwy ddarpariaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar (Cydgysylltu Ardaloedd Lleol, Gwasanaeth Annibyniaeth Cymunedol neu Dîm Cyswllt Cymunedol). | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| % y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. | 66% | Cynnydd |

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| % y dioddefwyr risg uchel sy’n ymgysylltu â’r Gwasanaeth Trais Domestig Annibynnol (IDVA). | 67% | Cynnydd |
| Nifer y bobl sy'n destun y broses Rhybudd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. | 6 | Lleihad |
| Nifer/% aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref. | 60.67 | Cynnal |
| Cynnydd yn nifer y bobl sy’n ymgysylltu â thechnoleg ddigidol drwy fentrau cynhwysiant digidol i’w cynorthwyo i fod yn annibynnol. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| % y cartrefi sydd â mynediad i'r rhyngrwyd. | 98% | Cynnydd |

## Cynlluniau Cysylltiedig a Phartneriaethau

| Cynlluniau | Partneriaethau |
|---|---|
| • Cynllun Llesiant Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot<br>• Strategaeth Hybu’r Gymraeg Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Ardal Gorllewin Morgannwg<br>• Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg<br>• Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth Meddwl am Deuluoedd Castell-nedd Port Talbot<br>• Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg<br>• Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot<br>• Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Grŵp Arwain |

3

NOD LLESIANT 3

## Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol

*Mae prosesau naturiol yn cael eu hadfer ac maent yn lliniaru ac wedi datblygu mwy o wydnwch i newid hinsawdd. Mae pobl yn mynd ati i warchod, gwella a mwynhau ein hamgylchedd naturiol godidog, yn trysori'r iaith Gymraeg ac yn ymgysylltu'n frwd â threftadaeth chwaraeon, ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog yr ardal*



## Ymhen 20 mlynedd...

- Mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg ac mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd;
- Bydd pobl yn gwerthfawrogi ac yn caru ein hamgylchedd naturiol lleol ac wedi gwrthdroi'r dirywiad yn ein bywyd gwyllt; bydd ein safleoedd mwyaf gwerthfawr mewn cyflwr gwell ac wedi'u cysylltu drwy rwydwaith o goridorau gwyrdd;
- Bydd pobl wedi adfer prosesau naturiol i liniaru a datblygu mwy o wydnwch i effeithiau newid hinsawdd;
- Bydd ein hardaloedd trefol yn cofleidio ac yn cynnwys gofod ar gyfer natur y gellir ei fwynhau a darparu cyfleoedd i bawb;
- Bydd trigolion o bob oed ar draws Castell-nedd Port Talbot yn siarad am yr amgylchedd, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth leol gyda balchder a hyder a bydd mwy o bobl yn cymryd rhan weithredol yng nghadwraeth ein hamgylchedd, diwylliant a threftadaeth;
- Bydd diwylliant a threftadaeth leol yn weladwy, yn dod yn fyw trwy ddylunio cynaliadwy o ansawdd uchel sy’n dathlu’r gorffennol ac yn ei gysylltu ag uchelgeisiau’r fwrdeistref sirol ar gyfer y dyfodol;
- Bydd yr ardal yn gyrchfan o ddewis i bobl fyw, gweithio a threulio eu hamser hamdden. Bydd yr ardal wedi meithrin enw da am ragoriaeth yn y ffordd y mae'n hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn trwy dreftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant ac yn cefnogi pawb i gysylltu â'r amgylchedd naturiol ac i fwynhau safon uchel o les; a
- Byddwn yn cynyddu apêl ein hardal fel cyrchfan i ymwelwyr drwy adeiladu ar ein hymdeimlad o le, bod â dull cynhwysol ac annog datblygu cynaliadwy. Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i ymddwyn yn gyfrifol er lles ein cymunedau a’n hamgylchedd lleol.



## Pam fod hyn yn bwysig?

Mae treftadaeth yn rhan annatod o'n diwylliant, ymdeimlad pobl o hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn sydd yn ei dro yn effeithio ar iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol pobl. Mae treftadaeth a diwylliant hefyd yn cyfrannu at yr economi, gan gefnogi cyflogaeth â thâl, helpu denu mewnfuddsoddiad a chynhyrchu gwerth trwy weithredu gwirfoddol – rhan o'n hagenda ehangach ar gyfer siapio lle.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig iawn o'n treftadaeth a'n diwylliant. Rydym yn cefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o bobl sy'n gallu mwynhau siarad Cymraeg erbyn 2050.

Nid yw pwysigrwydd gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wrth gwrs, erioed wedi bod mor amlwg. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd yn swyddogol yn 2019 ac Argyfwng Natur yn 2021, gan gydnabod arwyddocâd y ddwy her gydberthynol hyn a'r brys i fynd i'r afael â nhw. Mae'r amgylchedd naturiol yn hanfodol i'n cymunedau ac yn darparu ein holl anghenion sylfaenol i ni. Mae'n rhoi gwell ansawdd bywyd i ni i gyd a chyfleoedd i fwynhau'r awyr agored a harddwch naturiol a threftadaeth Cymru, gan roi'r dewis i bobl ddod yn fwy egnïol yn gorfforol. Daw pobl o bell ac agos i brofi ein hamgylchedd ac mae cysylltiad annatod rhyngddo a diwylliant ac iaith Cymru.

Er bod gan yr ardal lawer o gryfderau, mae hefyd yn profi lefelau cymharol uchel o dlodi, amddifadedd, afiechyd ac anabledd. Mae ffocws cryf ar annog pobl o bob oed ac o bob cefndir i fabwysiadu ffyrdd egnïol o fyw er mwyn gwella lles corfforol ac emosiynol. Mae hefyd angen tyfu mwy o swyddi o safon yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth lleol a pharhau â'r traddodiad hir o feithrin talent lleol i gyflawni llwyddiant fel athletwyr elitaidd ac i berfformio ar lwyfan y byd.

## Beth sy'n Bwysig i Bobl Leol

Trwy ein hymgyrch Dewch i Sgwrsio, mae pobl leol wedi dweud wrthym fod eu hamgylchedd lleol, yr Iaith Gymraeg a'n treftadaeth a'n diwylliant yn bwysig iddyn nhw. Maen nhw eisiau i ni:

- Gadw'r gorffennol yn fyw, gan hyrwyddo a dathlu ein treftadaeth i gryfhau ein hymdeimlad o hunaniaeth a'n hymdeimlad o berthyn;
- Helpu i warchod, cadw a chynnal ein safleoedd hanesyddol a threftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Hyrwyddo ein hiaith, traddodiadau a diwylliant Cymreig;
- Helpu pob cenhedlaeth i gysylltu â'n hamgylchedd naturiol, treftadaeth a diwylliant;
- Gwella cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio; a
- Helpu ein grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynnal a datblygu eu gwaith pwysig ymhellach.

Heb ymrwymiad clir i weithredu, mae perygl y byddwn yn gweld niwed di-droi'n-ôl, pellach i'n hamgylchedd naturiol, dirywiad pellach yn y defnydd o'r Gymraeg a'n traddodiadau, diwylliant a safleoedd treftadaeth pwysig yn cael eu colli i genedlaethau'r dyfodol.

Gyda'r camau cywir, gallwn wrthdroi'r newidiadau yr ydym wedi'u gweld yn ein hamgylchedd naturiol, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chadw ac adeiladu ar ein traddodiadau a'n treftadaeth i gael effaith gadarnhaol ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, lleoli Castell-nedd Port Talbot fel man lle mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a threulio eu hamser hamdden.

## Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, diwylliant a threftadaeth leol – Symud Ymlaen

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda'n grwpiau cymunedol, partneriaid a rhanddeiliaid i ddiffinio rhaglen o brosiectau treftadaeth a diwylliant blaenllaw ar gyfer y fwrdeistref sirol; yn cyflwyno'r strategaeth ddiwylliant newydd. | • Helpu hyrwyddo'r gwaith a wneir gan grwpiau lleol, gan ei gwneud yn haws i eraill werthfawrogi, deall a mwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant lleol.<br>• Ehangu'r defnydd o gronfa ddata Digwyddiadau'r cyngor i ehangu negeseuon cymunedol.<br>• Cwblhau'r Strategaeth Treftadaeth a Diwylliant, cytuno ar flaenoriaethau a phennu strategaeth llywodraethu partneriaeth.<br>• Hyrwyddo'r gronfa Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau a ariennir gan Ffyniant Gyffredin gwerth £2.5 miliwn ac amlygu cyfleoedd i grwpiau cymunedol;<br>• Parhau i chwilio am gyfleoedd ariannu allanol i warchod a gwella diwylliant a threftadaeth.<br>• Gweithredu ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.<br>• Ystyried yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur i bennu blaenoriaethau Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot.<br>• Cryfhau trefniadau cynllunio a phartneriaeth fel bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar warchod a gwella'r amgylchedd, treftadaeth a diwylliant lleol.<br>• Cefnogi'r rhai sydd wedi ymgartrefu yng Nghastell-nedd Port Talbot i hyrwyddo eu diwylliant a'u treftadaeth o fewn y gymuned. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i greu mwy o ymdeimlad o stiwardiaeth, gan eu hannog i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith parhaus o reoli a gwella eu hamgylchedd lleol. | • Parhau i gefnogi ac annog gwirfoddoli ar safleoedd natur y mae'r cyngor yn berchen arnynt.<br>• Sefydlu rhaglen hyfforddi a datblygu i alluogi ein gweithlu i gyfrannu at gadwraeth a mwynhad ein hamgylchedd, treftadaeth a diwylliant lleol. |
| Gwreiddio hanes yr amgylchedd lleol, treftadaeth a natur yn y cwricwlwm a sicrhau bod pob ysgol yn cael mynediad i gyfleoedd dysgu amgylcheddol ac awyr agored. | • Canolbwyntio ar gefnogi cwricwlwm ysgol newydd a datblygu cyfleoedd allan yn y gymuned i blant ymgysylltu.<br>• Ymestyn cyfleoedd i blant, pobl ifanc a dinasyddion ddysgu am eu hamgylchedd, treftadaeth a diwylliant lleol.<br>• Parhau gydag Adfer Mawndiroedd i ddatblygu tiroedd ysgol i wella bioamrywiaeth ac mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Glyncorrwg – darparu gofod ar gyfer ymgysylltu parhaus â’r awyr agored trwy weithgareddau a arweinir gan athrawon ar dir yr ysgol. |
| Wedi rhoi ein strategaeth hamdden ar waith i wella mynediad at gyfleoedd hamdden ac adloniant o ansawdd uchel. | • Cwblhau’r broses o drosglwyddo Celtic Leisure yn ôl i’r cyngor erbyn mis Mawrth 2024.<br>• Ailffocysu'r cynllun busnes strategol ar gyfer gwasanaethau hamdden a ddarperir gan y cyngor a chyflwyno cynllun busnes tymor canolig.<br>• Dechrau gwaith i osod cyfeiriad strategol newydd ar gyfer hamdden.<br>• Gwella cyfranogiad oedolion mewn hamdden a hamdden. |
| Wedi datblygu dealltwriaeth glir o sut y gall yr amgylchedd, treftadaeth, chwaraeon a diwylliant gyfrannu at economi cryfach a mwy cynaliadwy. | • Cyflawni ein rhaglen gynlluniedig o brosiectau a newidiadau i wasanaethau i wella mynediad at chwaraeon, hamdden, diwylliant a threftadaeth leol; cyflawni prosiectau arfaethedig i warchod ein hamgylchedd lleol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i sefydlu brand y fwrdeistref sirol fel cyrchfan o ddewis ar draws y DU ac yn rhyngwladol; gweithredu a chyflawni ein cynllun rheoli cyrchfan. | • Gweinyddu'r Gronfa Twristiaeth Diwylliant Treftadaeth a Digwyddiadau a ariennir gan Ffyniant Gyffredin er mwyn galluogi'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i gyflawni prosiectau â blaenoriaeth fel y nodir yn y strategaeth Ddiwylliant, y Strategaeth Dreftadaeth a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan.<br>• Cyflwyno'r Ymgyrch Marchnata Cyrchfan a Balchder Bro a Ariennir gan Ffyniant Gyffredin i godi proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr a newid canfyddiadau trigolion a buddsoddwyr o'r ardal ar draws rhanbarth De Cymru.<br>• Cyflwyno Prosiect Cronfa Ffyniant Bro Denu Ymwelwyr Coridor Treftadaeth Cwm Nedd ym Mharc Gwledig Ystâd y Gnoll a Gwlad y Sgydau ym Mhontneddfechan.<br>• Cyflawni blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr fel y nodir yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan newydd Castell-nedd Port Talbot.<br>• Cryfhau'r ymagwedd strategol at dwristiaeth a'r economi ymwelwyr.<br>• Cytuno ar Brif Gynllun Parc Coedwig Afan a chryfhau trefniadau partneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Gweithio'n agos gyda buddsoddwyr Wildfox i wneud y mwyaf o fanteision y cynnig hwnnw.<br>• Creu uwchgynllun ar gyfer Glan Môr Aberafan. |
| Cyflwyno Ymgyrch Marchnata Cyrchfan Dramatig Calon Cymru er mwyn codi proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan i ymwelwyr ac annog aros dros nos. | • Darparu gweithgareddau cyfathrebu marchnata cymhellol sy'n ymgysylltu â marchnadoedd targed ymwelwyr allweddol er mwyn annog twf yr economi ymwelwyr.<br>• Darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau a sefydliadau o fewn y sector twristiaeth er mwyn annog twf y sector twristiaeth a'r gyflogaeth y mae'n ei chreu. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Ehangu ein rhwydwaith teithio llesol a gwella hawliau tramwy cyhoeddus i annog mwy o bobl i gerdded a beicio. | • Datblygu Cynllun Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot sy'n nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer teithio llesol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac sy'n dangos sut y caiff y rhwydwaith teithio llesol ei wella a'i ymestyn drwy'r Fwrdeistref Sirol dros y 5 mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, ehangu a gwella ein rhwydwaith teithio llesol tra hefyd yn cynnal ein hawliau tramwy cyhoeddus, sydd ill dau yn cyfrannu at lai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat ac yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio. |
| Cynyddu'r gyfran o gyllideb y cyngor sy'n cael ei gwario ar ddewisiadau amgen gwyrddach ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ac sy'n dod o ffynonellau lleol ac o fewn y rhanbarth, gan gryfhau ein heconomi sylfaenol a chylchol. | • Gweithio gyda Chwmpas (Co-op Cymru) a CLES (Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol, datblygwyr 'Model Preston') i adolygu strategaeth cadwyn gyflenwi caffael. Gwneud y mwyaf o fuddion cymdeithasol ac economaidd lleol gwariant cynghorau, blaenoriaethu nodau ac amcanion ar gyfer gwerth cymdeithasol a meithrin cyfoeth cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot. |
| Wedi gweithio gyda'n grwpiau cymunedol, partneriaid a rhanddeiliaid i ymestyn ein gwaith i helpu byd natur i adfer a gwella ansawdd ein hamgylchedd naturiol a mynediad ato; rhoi ein cynllun bioamrywiaeth ar waith ymhellach. | • Ysgogi gweithrediad y Cynllun Bioamrywiaeth.<br>• Datblygu Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot ymhellach.<br>• Gwneud cais am a chyflawni prosiectau allanol a ariennir gan grantiau i reoli, gwella a chreu safleoedd cyngor newydd er budd natur a chymunedau lleol.<br>• Cefnogi ac annog gwirfoddoli ar safleoedd natur y mae'r cyngor yn berchen arnynt.<br>• Cryfhau trefniadau cynllunio a phartneriaeth fel bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar warchod a gwella'r amgylchedd, treftadaeth a diwylliant lleol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i hwyluso'r newid o ffynonellau ynni traddodiadol i ffynonellau ynni mwy cynaliadwy gyda phwyslais ar gyflawni rhaglen y Fargen Ddinesig, a chyfleoedd a grëwyd drwy sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol Bae Abertawe i ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth; gweithredu ein cynllun datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy diwygiedig. | • Adnewyddu cynllun datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy'r cyngor wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu wedi'i gostio'n llawn i alluogi'r broses o drosglwyddo Castell-nedd Port Talbot i garbon net sero erbyn 2030.<br>• Gweithredu mesurau i ddatgarboneiddio gweithrediad y cyngor gan gynnwys fflyd cerbydau a phortffolio eiddo'r cyngor.<br>• Drafftio Cynllun Ynni Lleol sy'n cyd-fynd â Chynllun Ynni Rhanbarthol de-orllewin Cymru, yn ogystal â datblygu cynllun gweithredu cyflawnadwy sy'n lleihau ôl troed carbon y cyngor ac yn lleihau ein defnydd o ynni.<br>• Parhau i ddatblygu'r gwaith o ddarparu Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, ein prosiectau Bargen Ddinesig; yn ogystal â diwygio'r Achos Busnes ar gyfer y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, er mwyn sicrhau cydran ychwanegol ar ffurf academi hyfforddi sero net a fydd yn cefnogi datgarboneiddio ein sector gweithgynhyrchu a'n dyheadau economaidd sy'n gysylltiedig â gwynt ar y môr arnofiol. |
| Wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymhellach fesurau lliniaru llifogydd a llygredd. | • Ymgysylltu â phartneriaid allweddol i ganfod y posibiliadau o gydweithio yn y tymor byr, canolig a hir gyda'r bwriad o wneud ein cymunedau'n fwy cynaliadwy a gwydn. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. | • Cynyddu ymgysylltiad y gweithlu a dinasyddion ag argyfyngau newid hinsawdd a natur. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi: | Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLl) newydd y cyngor a dechrau gweithredu. | Paratoi, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl, gan nodi strategaethau twf a gofodol y cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol ar gyfer 2021 – 2036, gan gynnwys:<br>• Cytuno ar faterion allweddol, gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y cynllun.<br>• Pennu opsiynau strategol priodol a nodi maint y twf arfaethedig yn y dyfodol yn y boblogaeth, tai a chyflogaeth i gynllunio ar ei gyfer.<br>• Cytuno a gosod allan strategaeth ofodol a ffafrir gan y cyngor ar gyfer y datblygiad adeiledig sydd ei angen i fynd i'r afael â lefel y twf.<br>• Nodi safleoedd datblygu strategol allweddol arfaethedig ar gyfer y twf.<br>• Drafftio polisïau cynllunio strategol allweddol i gyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth. |

## Gwneud Gwahaniaeth

Bydd y mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio i ddangos cynnydd yn ystod 2023/2024. Gan ddefnyddio data Ebrill 2022 fel llinell sylfaen, gallwn olrhain cynnydd hyd yma a phennu ein trywydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| % y personau (3 oed a throsodd) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. | 22.8% | Cynnydd |
| % y bobl (3 oed neu drosodd) sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. | 10.1% | Cynnydd |
| Cyfanswm (£) cyllid allanol a gyflawnwyd i ddiogelu asedau amgylchedd hanesyddol. | Mesur perfformiad newydd | Cynnydd |
| % y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. | 46% | Cynnydd |
| % y disgyblion a gymerodd ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos. | 64% | Cynnydd |
| % yr oedolion a oedd yn actif am o leiaf 150 munud yn ystod yr wythnos flaenorol. | 56% | Cynnydd |
| % y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos. | 34% | Cynnydd |
| Cyfanswm gwerth y cyllid a sicrhawyd i wella ansawdd profiad yr ymwelydd. | £557,000 | Cynnydd |
| Nifer yr ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot. | Data ar gael tua (Mehefin 2023) | Cynnydd |

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| Cyfanswm gwerth y cymorth grant a ddyfarnwyd i brosiectau lleol drwy'r Gronfa Treftadaeth, Diwylliant, Twristiaeth a Digwyddiadau. | Mesur perfformiad newydd | amh – Mesur Newydd |
| Cyfanswm cyrhaeddiad cronnol ymgyrchoedd marchnata cyrchfan a balchder lle. | Mesur perfformiad newydd | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2025 |
| % y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. | 66% | Cynnydd |
| Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person. | 204.37 | Lleihad |
| Arwynebedd o dir sy’n eiddo i’r cyngor (neu o fewn rheolaeth y cyngor) a ddefnyddir fel man gwyrdd, gwarchodfeydd natur lleol. | 820 ha | Cynnydd |
| Maint y tir sy’n eiddo i’r cyngor (neu dir o dan reolaeth y cyngor) sy’n cael ei warchod trwy ddynodiad a/neu sy’n destun rheolaeth briodol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth fel y nodir mewn cynllun rheoli cymeradwy. | 160.8ha a 23.12km ar gyfer cynefinoedd llinol | Cynnydd |
| Maint y tir sy’n eiddo i’r cyngor (neu dir y mae’r cyngor yn ei reoli) sydd wedi’i ddynodi neu sy’n bodloni’r meini prawf ar gyfer ei ddynodi’n Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth (SINCs). | 782ha | Cynnydd |
| Nifer yr achosion o dorri amodau PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot/Taibach). | 27 | Targed statudol o 35 – Cynnal |

## Cynlluniau Cysylltiedig a Phartneriaethau


| Cynlluniau | Partneriaethau |
|---|---|
| • Cynllun Llesiant Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardal<br>• Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot (DARE)<br>• Cynllun Bioamrywiaeth Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Rheoli Cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot<br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg Castell-nedd Port Talbot<br>• Map Rhwydwaith Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot<br>• Uwchgynllun y Gnoll<br>• Uwchgynllun Parc Fforest Afan<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyngor Chwaraeon Ardal/Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Castell-nedd Port Talbot<br>• Grŵp Llywio Cynllun Rheoli Cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot<br>• Grŵp Twristiaeth Parc Fforest Afan<br>• Fforwm Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot<br>• Grŵp Llywio Adfer Mawndiroedd<br>• Grŵp Cysylltu Seilwaith Gwyrdd<br>• Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe/Cyd-Bwyllgor Corfforaethol<br>• Pwyllgor Cyswllt Cadnoid Gwyllt<br>• Pwyllgor Cyswllt GCRE<br>• Trafnidiaeth Cymru<br>• Network Rail |

4

NOD LLESIANT 4

## Swyddi a Sgiliau

*Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn creu'r amodau ar gyfer gwaith gwyrdd mwy sicr, sy'n talu'n dda yn yr ardal ac yn cefnogi pobl leol i mewn i'r swyddi hynny*



## Ymhen 20 mlynedd...

- Mae sylfaen BBaCh cryf ac amrywiol yn y fwrdeistref sirol sy'n elwa ar gymorth, adeiladau a chyllid sydd wedi'u cydlynu'n dda;
- Trawsnewid safleoedd mawr ym Mhort Talbot, Parc Ynni Baglan a chwblhau'r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd a Wildfox;
- Mae manteision economaidd newydd, sylweddol wedi'u cyflawni drwy ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth; mae'r ardal yn esiampl i eraill ar gyfer ynni adnewyddadwy, glân;
- Mae canol trefi a chymunedau yn ffynnu;
- Rydym wedi gwneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol, ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol ac mae gennym economi ymwelwyr sylweddol a chynaliadwy;
- Mae cysylltedd llawer gwell â gwaith, dysgu a gwasanaethau;
- Mae yna weithlu lleol medrus a gwydn gyda chyfraddau aelwydydd di-waith neu bobl economaidd anweithgar ar gyfartaledd Cymru neu'n is;
- Mae partneriaeth gref rhwng y cyngor, y gymuned fusnes, pobl leol a rhanddeiliaid ehangach; a
- Mae dynodi'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn 2023 wedi galluogi Castell-nedd Port Talbot i arwain y ffordd wrth gyflwyno chwyldro diwydiannol gwyrdd gyda chyfleoedd economaidd i'r holl drigolion a busnesau.

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae byd gwaith yn newid yn gyflym, wedi'i amharu gan y ffrwydrad mewn datblygiadau technoleg ddigidol, gan y sioc economaidd a achosodd Covid-19 ar draws yr economi ac yn newid y ffyrdd y mae llawer o fusnesau'n gweithredu; ac yn awr gan yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd; gan gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn y Môr Celtaidd ac o'i amgylch;
- Mae gan Gastell-nedd Port Talbot sylfaen ddiwydiannol nodedig, sy'n cynnwys cynhyrchydd dur mwyaf y DU ac ystod eang o gynhyrchwyr (BBaCh); ac mae'r economi leol yn dibynnu i raddau helaeth ar weithgareddau nifer fach o ddiwydiannau allweddol;
- Gyda nifer o safleoedd cyflogaeth strategol a llawer o gyfleoedd ar gyfer twf economaidd gan gynnwys swyddi gwyrdd newydd wrth i ddiwydiant a chymdeithas ddatgarboneiddio; mae'r ardal yn cael ei gwasanaethu'n dda gan reilffordd, ffyrdd ac mae'r harbwr dŵr dwfn yn ased strategol;
- Mae 88% o fusnesau lleol yn cyflogi llai na deg o weithwyr; Mae cyfraddau cychwyn busnes a chyfraddau goroesi busnes yn debyg i gyfartaledd Cymru;
- Mae cyfraddau cychwyn busnes a chyfraddau goroesi busnes yn debyg i gyfartaledd Cymru;
- Mae niferoedd sylweddol o bobl yn cymudo i'r fwrdeistref sirol – o bosibl oherwydd ansawdd uchel y swyddi; mae yna hefyd nifer sylweddol o bobl yn y gymuned yn teithio allan o'r fwrdeistref sirol ar gyfer swyddi o werth mwy cymedrol;

- Mae dros 1,138 o bobl ifanc yn hawlio Credyd Cynhwysol yn y fwrdeistref sirol, dim ond 24% o'r bobl ifanc hyn sy'n chwilio am waith;
- Mae 23,300 o bobl o oedran gweithio yn economaidd anweithgar ac mae tua 9,300 o aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith am dâl;
- Mae dros 15,000 o aelwydydd yn derbyn gostyngiadau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor o ganlyniad i fod ag incwm teuluol isel;
- Mae lefelau cymwysterau yn isel ar draws pob lefel o gymharu â chyfartaledd Cymru; a
- Cyfleoedd ar gyfer cyllid sydd ar gael drwy Gronfa Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r rhaglen Porthladd Rhydd a fydd yn galluogi Castell-nedd Port Talbot i gadw a buddsoddi ardrethi busnes a gynhyrchir o safleoedd treth Porthladd Rhydd. Bydd y Porthladd Rhydd yn galluogi darparu 16,000 o swyddi gwerth uchel i helpu cyflawni buddion gwynt ar y môr fel y bo'r angen yn y Môr Celtaidd yn ogystal â chynorthwyo i ddatgarboneiddio diwydiant sy'n cyfrif am 20% o'n heconomi leol.

## Beth sy'n bwysig i fusnesau lleol?

- Gallu cynhyrchu digon o arian i aros mewn busnes a chael safon byw dda;
- Gallu addasu wrth i farchnadoedd newid;
- Cymorth ariannol i gefnogi adferiad Covid-19;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig yn y trefi;
- Creu cyflogaeth a bod yn gyflogwr da;
- Trafnidiaeth – yn effeithio ar y gallu i gyflogi pobl a nifer y cwsmeriaid;
- Rheoli twf;
- Help gyda recriwtio a hyfforddiant;
- Cynnal a thyfu'r sylfaen cwsmeriaid, proffil busnes a marchnata;
- Pris a sefydlogrwydd yn y gadwyn gyflenwi; costau ynni;
- Cysylltedd digidol a sgiliau digidol; a
- Help gyda safleoedd ac eiddo.

## Swyddi a Sgiliau – Symud Ymlaen

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio drwy'r Cydbwyllgor Corfforaethol i gyflwyno'r Strategaeth Datblygu Economaidd Ranbarthol. | • Byddwn yn gweithio ar y cyd â'r rhanbarth i gyflawni'r tri 'uchelgais' ar gyfer economi de-orllewin Cymru:<br>* Gwydn a Chynaliadwy<br>* Mentrus ac Uchelgeisiol<br>* Cytbwys a Chynhwysol<br>• Mapio'r cyfleoedd datblygu economaidd sy'n gysylltiedig â FLOW (Gwynt ar y Môr Arnofiol) a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny i gwmnïau lleol, yn ogystal â sicrhau bod gweithlu medrus yn cael ei ddatblygu trwy ein partneriaid academaidd amrywiol.<br>• Cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan sicrhau yr eir i'r afael yn llawn ag anghenion a blaenoriaethau trafnidiaeth Castell-nedd Port Talbot. Bydd y cynllun hwn yn sail i unrhyw geisiadau a ariennir gan grant yn y dyfodol er mwyn gallu cyflawni. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Cyflwyno rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) yng Nghastell-nedd Port Talbot. | • Bydd y Tîm Rhaglenni Ariannu Strategol yn arwain y gwaith o gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghastell-nedd Port Talbot gan sicrhau bod y dyraniad lleol o gyllid yn cael ei uchafu i gyflawni prosiectau blaenoriaeth sy'n mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y fwrdeistref sirol fel y disgrifir yn y Cynllun Buddsoddi rhanbarthol.<br>Mae 5 prosiect angori wedi'u cymeradwyo:<br>* Lle<br>* Cymoedd a Phentrefi<br>* Cymunedau Cynaliadwy<br>* Gwell cymorth Busnes ar gyfer Twf ac Arloesi<br>* Cyflogadwyedd<br>• Bydd Cyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot yn darparu darpariaeth gydgysylltiedig gyfannol yng Nghastell-nedd Port Talbot trwy ystod eang o ymyriadau. Bydd gennym un gwasanaeth drws ffrynt a fydd yn sicrhau bod ein trigolion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael y cymorth, y gefnogaeth a'r cyngor i ddiwallu eu hanghenion, yn ogystal â chysylltu â busnesau lleol a'r tîm busnes i gael mynediad at y swyddi cywir. Bydd Cronfa Twf Cymunedau Cynaliadwy yn cael ei datblygu gyda Swyddog Cyllid Twf yn ei le. Bydd gweithgaredd Ieuenctid a Thlodi yn symud ymlaen. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Wedi gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â chyfleoedd datblygu a buddsoddi mawr a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy'r Cyngor. | • Gweithio gyda datblygiadau allweddol a mawr i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd posibl yn y gadwyn gyflenwi, gan ddenu mewnfuddsoddiad a buddion economaidd cysylltiedig, ar weithgarwch fel Ynni Gwynt ar y Môr fel y bo'r angen, ailddatblygu Dociau Port Talbot ABP, Canolfan Ragoriaeth Global Rail, Wildfox a chyfle Porthladd Rhydd. Mae'r rhain yn amrywio o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi, cysylltu ymholiadau buddsoddi, cwmpasu cyfleoedd carbon isel, cysylltu gweithgarwch sgiliau â sefydliadau a chysylltiadau perthnasol, gan weithio ar draws y rhain ar lefel strategol a gweithredol. |
| Cyflwyno'r Porthladd Rhydd Celtaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. | • Sefydlu'r cwmni Porthladd Rhydd a'r Bwrdd Buddsoddi ar y Cyd a gweithio mewn partneriaeth ag aelodau'r consortiwm i ddatblygu'r Achosion Busnes amlinellol a llawn sy'n ofynnol gan y Trysorlys, i gyflawni'r dyheadau datblygu economaidd sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd. |
| Sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn gadarn er mwyn datblygu mwy o gyfleoedd gwyrdd. | • Parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i ddatblygu swyddi a sgiliau gwyrdd newydd.<br>• Targedu busnesau sy'n ceisio tyfu neu ehangu o fewn y sectorau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy a'u hannog i ganolbwyntio eu cynlluniau twf o fewn y fwrdeistref sirol. |
| Mae rhaglenni wedi'u targedu'n cael eu datblygu i alluogi pobl leol i elwa o'r gyflogaeth sy'n cael ei chreu drwy fuddsoddiad busnes newydd. | • Cymryd ymagwedd gydweithredol at gyflawni'r prosiectau SPF Cefnogi Busnes a Chyflogadwyedd i sicrhau bod gwybodaeth busnes a'r farchnad yn cael ei defnyddio i ddatblygu rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant sy'n bodloni anghenion busnesau lleol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Cryfhau trefniadau partneriaeth ar lefel leol i ddatblygu'r economi gan sicrhau bod gan fusnesau a chymunedau lais cryf wrth lunio cynlluniau'r dyfodol. | • Cefnogi busnesau lleol yn eu hadferiad, gan ddarparu cymorth ariannol pan fydd ar gael a helpu busnesau i arallgyfeirio fel eu bod yn fwy gwydn i ergydion economaidd yn y dyfodol. |
| Mae rhaglenni cyflogadwyedd yn cael eu cryfhau ymhellach gan sicrhau bod pawb sydd angen cymorth i ddod o hyd i waith yn gallu cael mynediad ato, gan gynnwys y rhai anoddaf eu cyrraedd. | • Creu 'drws ffrynt sengl' i'n gwasanaethau cyflogadwyedd fel bod y rhai sy'n ceisio hyfforddiant a/neu waith yn ei chael hi'n hawdd cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. |
| Sefydlu porth cryf i gymorth busnes i helpu i arallgyfeirio'r economi leol a chynyddu ei gwydnwch i ergydion economaidd yn y dyfodol drwy helpu busnesau presennol i dyfu, sefydlu mentrau newydd a denu buddsoddiad newydd i'r ardal. | • Cryfhau ymgysylltiad â busnesau lleol.<br>• Gweithio gyda'r Fforwm Economaidd i adolygu'r Cynllun Adfer Economaidd Lleol a datblygu fframwaith hyblyg ar y cyd ar gyfer cyflawni a monitro 'camau gweithredu' yn y dyfodol. |
| Wedi buddsoddi a denu buddsoddiad yn ein prif drefi, canol ardal a chymunedau ehangach; ymateb i'r galw am fannau gwaith mwy hyblyg; cynhyrchu Strategaeth Adfywio gyfannol ar gyfer y fwrdeistref. | • Bydd gwaith gyda'r Trefolwyr yn parhau. Yn ogystal â Chanol Trefi, ymestynnwyd y cylch gorchwyl i gynnwys canolfannau uwchradd a thrydyddol e.e. Ystalyfera, GCG, Taibach. Mae cyflwyniad wedi'i wneud i SPF ddatblygu ac ehangu'r gwaith a ariannwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru drwy ei menter 'Trawsnewid Trefi'.<br>• Bydd y gwaith hwn wedyn yn rhan bwysig o'r Strategaeth Adfywio ehangach sydd i ddod, gyda phwyslais ar y Cymoedd. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mwy o gapasiti o fewn y tîm Adfywio a Datblygu Economaidd i sicrhau safle gwell i'r cyngor i ddatblygu a gwneud cais am gyllid i gefnogi datblygiad yr economi leol. | • Cryfhau tîm cymorth busnes y cyngor i helpu busnesau lleol i recriwtio pobl fedrus ac i helpu darparwyr dysgu lleol i addasu darpariaeth ddysgu i gyd-fynd ag anghenion newidiol cyflogwyr.<br>• Recriwtio staff ychwanegol i'r tîm Adfywio, er mwyn galluogi cyflwyno'r rhaglen SPF.<br>• Sefydlu'r mecanweithiau i roi'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Datblygu Economaidd Lleol ar waith a defnyddio gwybodaeth am y farchnad a gafwyd o gyflawni'r rhaglen SPF i gryfhau ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. |
| Gwell mynediad i safleoedd ac adeiladau – yn enwedig yn ardaloedd y cymoedd. | • Trwy'r rhaglen SPF, byddwn yn darparu 14 o unedau busnes newydd yng nghymoedd Aman, Afan a Dulais. Byddwn hefyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio adeiladau dros ben. |
| Wedi asesu effaith y newidiadau a wnaed i fodel gweithredu'r cyngor a chyflwyno cynigion i ail-bwrpasu asedau nad oes eu hangen; gallai hyn gynnwys hybiau gofod gwaith a rennir, swyddfeydd hybrid a mannau gwaith ymchwil a datblygu, unedau cychwynnol ac ati. | • Gweithio mewn ardaloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot lle mae'r anweithgarwch economaidd mwyaf i dargedu cymorth busnes.<br>• Datblygu rhaglen fuddsoddi i alluogi ehangu safleoedd ac adeiladau ar draws y fwrdeistref sirol a all gefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mwyafu cyfleoedd Gwerth Cymdeithasol a Budd Cymunedol ar draws gweithgareddau caffael y cyngor i gyflawni buddion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i drigolion, busnesau a chymunedau lleol. | • Datblygu trefniadau caffael y cyngor ymhellach i sicrhau bod yr arian a wariwyd gan y cyngor yn cefnogi cyflogaeth pobl leol a datblygu busnesau lleol i'r graddau mwyaf posibl.<br>• Datblygu polisi caffael a gwerth cymdeithasol yn unol â'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (unwaith y bydd deddfwriaeth wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru).<br>• Gweithio gyda Chwmpas (Co-op Cymru) a CLES (Canolfan Strategaethau Economaidd Lleol, datblygwyr 'Model Preston') i adolygu strategaeth cadwyn gyflenwi caffael. Gwneud y mwyaf o fuddion cymdeithasol ac economaidd lleol gwariant cynghorau, blaenoriaethu nodau ac amcanion ar gyfer gwerth cymdeithasol a meithrin cyfoeth cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot. |
| Datblygu'r Hyb Trafnidiaeth yng Ngorsaf Reilffordd Castell-nedd. | • Parhau i ddatblygu cynlluniau i ddarparu Hyb Trafnidiaeth Integredig yng Ngorsaf Drenau Castell-nedd sy'n cysylltu gwasanaethau bysiau lleol â'r brif orsaf reilffordd, gan leihau amseroedd teithio cyffredinol, a gwella cysylltiadau rhwng y mannau lle mae pobl yn byw a'r mannau lle mae pobl yn gweithio, yn dysgu ac yn mwynhau eu hamser hamdden. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Datblygu cynlluniau trafnidiaeth mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i gefnogi mynediad at waith, lleihau allyriadau a gwasanaethu anghenion trigolion Castell-nedd Port Talbot. | • Cyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau Castell-nedd Port Talbot yn cael sylw.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid o £1.3m i gefnogi cynlluniau ceir Trafnidiaeth Gymunedol i ehangu ceir cymunedol trydan (EV) yn y Rhanbarth. Mae cynlluniau Castell-nedd Port Talbot wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o'r cyllid hwn a byddant yn edrych ar gyflwyno ceir trydan yng Nghymoedd Afan, Nedd, Dulais ac Aman.<br>• Cyhoeddi'r Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel rhanbarthol i gefnogi'r broses o drosglwyddo cerbydau i bŵer trydan.<br>• Mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, datblygu rhwydwaith bysiau arfaethedig ac archwilio dichonoldeb cyflwyno gwasanaeth bws Fflecsi peilot i ategu'r rhwydwaith arfaethedig. Bydd y fenter hon yn amodol ar gyllid yn dod ar gael.<br>• Mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, sicrhau cyllid ar gyfer caffael cerbydau tanwydd hydrogen a nodi tir ar gyfer seilwaith storio ac ail-lenwi hydrogen, parcio a chynnal a chadw cerbydau. |
| Ehangu Twf Swyddi Cymru Plws a rhaglenni prentisiaeth ar draws y fwrdeistref sirol; gyda'r cyngor yn cynnig mwy o gyfleoedd lleoli o safon. | • Datblygu llwybrau clir i bobl leol sydd â diddordeb mewn gweithio yn y cyngor a datblygu ymhellach arlwy cyflogaeth a hyfforddiant y cyngor i ddenu, cadw a datblygu gwasanaeth cyhoeddus sy'n perfformio'n dda ac sydd wedi'i wreiddio yn ei gymunedau.<br>• Adolygu ein cymorth recriwtio a phrentisiaeth AD, yn ogystal â'n cynnig cyflogadwyedd, fel bod y rhai sy'n ceisio hyfforddiant a/neu waith yn ei chael yn hawdd cael gafael ar y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. |

| Erbyn 2027 byddwn wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol: | Er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/2024 yw: |
|---|---|
| Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd i ennill cymhwyster cydnabyddedig ar ôl cwblhau eu haddysg statudol. | • Cyflwyno Twf Swyddi Cymru Plws i bobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n gweithio gyda cholegau i ennill Lefel 1 a 2.<br>• Byddwn yn gweithio i sicrhau bod llwybrau Prentisiaethau'n gadarn drwy weithio mewn partneriaeth ac felly'n rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc.<br>• Gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i ennill cymwysterau galwedigaethol, er enghraifft Dug Caeredin, CSCS, Cymorth Cyntaf Lefel 2. |
| Mae cynnig dysgu a datblygu'r cyngor yn cael ei gryfhau gan sicrhau bod pob gweithiwr yn cael ei gefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu gydol oes a hyder i ddatblygu eu gyrfaoedd o fewn y cyngor. | • Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol, i gael mynediad at gyllid ychwanegol. Ystyried cyllid SPF ar gyfer adnoddau ychwanegol. |
| Sicrhau bod gennym weithlu cryfach gyda digon o gyfleoedd prentisiaeth ar gyfer ein pobl ifanc ac oedolion. | • Gweithio gyda chyflogwyr lleol i gynyddu nifer y cyfleoedd prentisiaeth o safon a sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu hystyried yn ddeniadol i'r rhai sy'n chwilio am waith.<br>• Cychwyn archwiliad sgiliau lleol i nodi gofynion gwaith cyflogwyr lleol yn y dyfodol ac unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth ddysgu leol. |
| Cryfhau gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella sgiliau'r rhai sydd eisoes mewn gwaith neu sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith; bydd mwy o bobl leol yn meddu ar gymwysterau Lefel 4+ ac yn cael eu cefnogi i gael swyddi lleol o safon. | • Bydd Cyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot yn datblygu mentrau trwy weithio mewn partneriaeth i annog y rhai sydd am uwchsgilio neu'r rhai sy'n dymuno ennill cymwysterau ar lefel uwch. |

## Gwneud Gwahaniaeth

Bydd y mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio i ddangos cynnydd yn ystod 2023/2024. Gan ddefnyddio data Ebrill 2022 fel llinell sylfaen, gallwn olrhain cynnydd hyd yma a phennu ein trywydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n cael eu cefnogi i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli gan Gyflogadwyedd Castell-nedd Port Talbot. | 134 | Cynnydd |
| Nifer y Prentisiaid mewnol ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol. | 78 | Cynnydd |
| Nifer yr wythnosau hyfforddi a gwblhawyd ar gyfer prentisiaethau mewnol, hyfforddeiaethau a phrofiad gwaith. | 2844 | Cynnydd |
| Nifer y bobl a gynorthwyir gan Gyflogadwyedd CNPT sy'n ennill cymhwyster lefel 2 neu uwch. | Mesur Perfformiad Newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar a gefnogir i gyflogaeth. | Mesur Perfformiad Newydd | Cynnydd |
| Nifer yr unigolion o gartrefi di-waith a gefnogir yn ôl i waith gyda chefnogaeth gan Gyflogadwyedd CNPT. | Mesur Perfformiad Newydd | amh – Mesur Newydd |
| Nifer yr ymholiadau busnes a gynorthwywyd yn arwain at roi cyngor, gwybodaeth neu gymorth ariannol i gwmnïau presennol drwy'r Gwasanaethau Busnes. | 711 | Cynnydd |

| Mesurau Perfformiad | Data Sylfaenol – Ebrill 2022 | Rhagolygon ar gyfer 2023/2024 (cynyddu, lleihau neu gynnal) |
|---|---|---|
| Grantiau busnes wedi'u rhoi fel % o'r cyllid sydd ar gael. | Mesur Perfformiad Newydd | amh – Mesur Newydd |
| % y gostyngiad yn arwynebedd llawr adeiladau'r cyngor a feddiannir. | Mesur Perfformiad Newydd | Lleihad |
| Mannau busnes o ansawdd uchel ar gael/neu wrthi'n cael eu datblygu. | 498 | Cynnydd |
| Nifer yr eiddo masnachol a gynorthwywyd gydag adnewyddu neu wella. | Mesur Perfformiad Newydd | amh – Mesur Newydd |


## Cynlluniau Cysylltiedig a Phartneriaethau

| Cynlluniau | Partneriaethau |
|---|---|
| • Cynllun Llesiant Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru: Datganiadau Ardal<br>• Strategaeth Datblygu Economaidd De-orllewin Cymru<br>• Strategaeth Ynni Adnewyddadwy De-orllewin Cymru<br>• Cynllun Trafnidiaeth De-orllewin Cymru<br>• Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol SPF<br>• Llywodraeth Cymru – Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach<br>• Cynllun Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSP)<br>• Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy Castell-nedd Port Talbot (DARE)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Rheoli Cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot<br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Adferiad Datblygu Economaidd Castell-nedd Port Talbot<br>• Cynllun Teithio Llesol Castell-nedd Port Talbot<br>• Uwchgynllun y Gnoll<br>• Uwchgynllun Parc Fforest Afan<br>• Fframwaith Ddatblygu Cyrchfan Coridor Treftadaeth Cwm Nedd | • Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot<br>• Bargen Ddinesig Bae Abertawe<br>• Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru<br>• Grŵp Llywio Cynllun Rheoli Cyrchfannau Castell-nedd Port Talbot<br>• Grŵp Llywio Rheoli Cyrchfan Parc Fforest Afan<br>• Grŵp Llywio Glan y Môr Aberafan<br>• Fforwm Treftadaeth Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth Natur Castell-nedd Port Talbot<br>• Glannau Port Talbot – Partneriaeth Ardal Fenter<br>• Partneriaeth Cais Porthladd Rhydd<br>• Partneriaeth Gwlad y Sgydau<br>• Grŵp Cefnogi Cyflogwyr Castell-nedd Port Talbot<br>• Partneriaeth Economaidd Lleol Castell-nedd Port Talbot<br>• Bwrdd Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer<br>• Bwrdd Rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel<br>• Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol<br>• Bwrdd Rhaglen UKSPF Castell-nedd Port Talbot<br>• Cyfarfodydd Lleol a Rhanbarthol SPF |

| Cynlluniau | Partneriaethau |
|---|---|
| | • Grŵp Darparwyr Sgiliau a Thalentau – Cynnig Dinesig<br>• Partneriaeth Dysgu Oedolion Cymru<br>• Cyfarfod Rheolwyr ar y Cyd Rhwydwaith Sgiliau Dysgu Powys a Chastell-nedd Port Talbot<br>• Gweithgor Rhwydwaith Sgiliau Dysgu Castell-nedd Port Talbot/Powys<br>• Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)<br>• Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Penfro<br>• Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)<br>• Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)<br>• Banciau Bwyd Lleol |

# Rhaglen Alluogi – Datblygiad Sefydliadol

Mae newid sefydliadol sylweddol yn parhau i gyflawni'r amcanion llesiant, newid diwylliannol a rhaglenni gwaith cysylltiedig a sicrhau newidiadau cynaliadwy i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.



Bydd rhaglen o ddatblygiad sefydliadol yn cael ei chyflwyno i ddatblygu gallu a galluedd y cyngor dros gyfnod o 3-5 mlynedd. Mae cwmpas y rhaglen wedi'i grynhoi isod a bydd yn cael ei fireinio ymhellach wrth i'r rhaglen gael ei diffinio a'i chychwyn:

**Pobl** – rydyn ni'n credu bod pobl yn gwneud gwahaniaeth. Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn cael eu harwain yn dda, yn cael eu cefnogi, yn ymddiried ynddynt ac yn cael eu cydnabod am y cyfraniad a wnânt. Bydd pobl yn cael eu trin yn deg a chyda pharch a hefyd yn cael eu hannog i gyflwyno syniadau am sut y gallwn wella'r hyn a wnawn. Byddwn yn datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ei gymunedau a bydd pobl yn cael cyfle cyfartal i symud ymlaen yn ein sefydliad. Byddwn yn datblygu diwylliant lle mae pobl yn atebol ac yn cael eu cydnabod am yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud.

**Digidol** – byddwn yn dod yn ddeallus ac yn gysylltiedig fel cyngor ac fel lle. Byddwn yn cydgysylltu ac yn defnyddio'r data sydd gennym i wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'n dinasyddion. Byddwn yn creu gwasanaethau digidol newydd wedi'u dylunio o amgylch anghenion ein dinasyddion, sy'n ddiogel, yn hawdd ac yn gyfleus i'w defnyddio. Byddwn yn uwchsgilio ein gweithlu fel bod gan bawb y sgiliau digidol a'r offer i wneud eu swyddi a byddwn yn gweithio i ddileu'r rhwystrau y mae rhai dinasyddion nad ydynt ar-lein yn eu hwynebu fel y gallant fwynhau'r un manteision â'r rhai sydd eisoes ar-lein.

**Llywodraethu** – byddwn yn addasu ein harchwaeth risg er mwyn annog arloesi cyfrifol a buddsoddi mewn adeiladu diwylliant corfforaethol cryf lle mae pobl yn gyfrifol ac yn atebol am yr hyn a wnânt, lle mae pobl yn herio ymddygiad sy'n annerbyniol a lle mae pobl yn dysgu ac yn gwella'n barhaus. Byddwn yn disodli biwrocratiaeth ddiangen yn systematig gyda dulliau mwy modern. Byddwn yn parhau i feithrin diwylliant o gyd-ymddiriedaeth a pharch rhwng cynghorwyr a swyddogion gyda phob un yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan yn ein prosesau democrataidd.

**Sicrhau gwerth am arian a sicrhau cynaliadwyedd ariannol:**

Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ddisodli'r dreth gyngor gyda dull tecach o ariannu llywodraeth leol ac yn y tymor byr byddwn yn gweithio i leihau'r baich ariannol ar dalwyr y dreth gyngor. Yn ein rôl arweinyddiaeth gymunedol, byddwn yn ceisio dylanwadu ar raglenni buddsoddi ein partneriaid a mewnfuddsoddwyr er budd ein holl ddinasyddion. Byddwn yn annog y sector cymunedol a gwirfoddol i geisio cyllid ar gyfer gweithgarwch sy'n cefnogi llesiant ein dinasyddion ac i ymestyn rhaglenni sy'n darparu cymorth a chefnogaeth gynnar. Byddwn yn annog pobl i gymryd rhan ym mywyd y gymuned a hyrwyddo manteision gwirfoddoli. Byddwn yn gweithio i gynyddu faint o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario mewn cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol.

Byddwn yn defnyddio dull 'system gyfan' o reoli ein hadnoddau ariannol ein hunain, gan ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig', gan ddileu'r galw am fethiant yn systematig, lleihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithrediadau gwasanaethau.

Byddwn yn cydweithio ar draws y cyngor a chyda phartneriaid allanol i'w gwneud yn haws i ddinasyddion gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a byddwn yn integreiddio cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau lle mae hyn yn gwella mynediad at wasanaethau a gwerth am arian.

Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r incwm sydd ar gael trwy ddatblygu ein strategaeth fasnachol ymhellach, gan flaenoriaethu gwasanaethau lle mae cyfleoedd marchnad sefydledig. Byddwn yn buddsoddi mewn gallu i wneud y mwyaf o incwm grant allanol ac yn ystyried a yw ffioedd a thaliadau yn gymesur â chost gwasanaethau a gweithgarwch rheoleiddio.

Byddwn yn newid y ffordd rydym yn ymdrin â'n cyllideb refeniw, gan roi mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar reolwyr gwasanaethau i ddod o hyd i ffyrdd o liniaru pwysau ar wasanaethau. Byddwn yn datblygu diwylliant buddsoddi i arbed i gefnogi'r newid pwyslais hwn, gan sicrhau bod cyllid a chymorth ar gael i hwyluso newid gwasanaethau yn seiliedig ar achosion busnes cadarn.

Byddwn yn gwella'r aliniad rhwng rheoli asedau, cynllunio ein rhaglen gyfalaf a'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r blaenoriaethau newydd.

**Ymgysylltu – cyngor sydd mewn cysylltiad â'i gymunedau:**
Byddwn yn datblygu 'Dewch i Sgwrsio' ymhellach fel bod gennym adborth parhaus gan ein preswylwyr, ein staff, ein busnesau a'n partneriaid a chynyddu cyfranogiad yng ngwaith y cyngor.

Byddwn yn adolygu naws, sianeli a ffurfiau cyfathrebu i atgyfnerthu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r blaenoriaethau newydd – bydd hyn yn cynnwys defnyddio astudiaethau achos a ffyrdd diddorol eraill o ddangos 'sut mae da yn edrych ac yn teimlo'.

Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae'r cyngor yn ei wneud i helpu pobl i fyw bywydau da a grymuso pobl yn ein gweithlu i gyfathrebu'r hyn rydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud.

**Asedau**
Byddwn yn adolygu ein cynlluniau asedau i sicrhau bod ein seilwaith ffisegol yn cefnogi'r pwrpas a'r weledigaeth ddiwygiedig ac yn galluogi cyflawni'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud.

**Ein Hegwyddorion Dylunio**
Wrth gyflawni'r rhaglen newid strategol byddwn yn mabwysiadu'r egwyddorion dylunio canlynol:

- **Un Cyngor**
- **Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm**
- **Ymddiriedaeth a Grymuso**
- **Tegwch a Chydraddoldeb**
- **Atebolrwydd**
- **Gwerth am Arian**
- **Hyblyg ac Arloesol**
- **Cynaliadwy**

# Ein Hegwyddorion Dylunio

### Un Cyngor
Bydd y cyngor cyfan yn canolbwyntio ar wneud 'beth sy'n bwysig' i'n trigolion, i fusnesau lleol ac i fuddsoddwyr, er mwyn i ni fedru cyflawni ein pwrpas a'n gweledigaeth.

### Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm
Mae ein harweinwyr a'n rheolwyr yn cael effaith aruthrol ar ddiwylliant y cyngor, a thrwy ein harweinwyr rydym ni am ddarparu ymdeimlad o weledigaeth, pwrpas ac ysbrydoliaeth i'n cyflogeion. Bydd creu Tîm CNPT yn ein galluogi i ddysgu oddi wrth ein gilydd ac i feithrin hyder o fewn y sefydliad, gan arwain at arloesi a gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot.

### Ymddiriedaeth a Grymuso
Rydym ni'n ymddiried yn ein cydweithwyr ac yn credu ynddynt. Byddwn ni'n sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi, eu cefnogi a'u hawdurdodi i wneud y pethau sy'n bwysig, er mwyn i ni gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

### Atebolrwydd
Byddwn ni'n ei wneud yn haws i bobl gael mynediad at wybodaeth a chyfarfodydd y Cyngor. Byddwn ni'n esbonio a ydym ni wedi gwneud y pethau y dywedwyd y byddem ni'n eu gwneud.

### Ystwyth ac Arloesol
Byddwn ni'n mabwysiadu dull gweithredu defnyddiwr-ganolog wrth ddylunio polisïau, gwasanaethau a lleoedd. Byddwn ni'n annog syniadau newydd a ffyrdd creadigol o feddwl i herio'r status quo ac yn gwella'r hyn rydym ni'n ei wneud a'n dull o'i wneud. Byddwn ni'n rhagweld heriau cyn iddyn nhw godi ac yn cymryd camau rhagweithiol i'w hwynebu, gan ymateb yn gyflym i heriau ac amgylchiadau newydd.

### Tegwch a Chydraddoldeb
Byddwn ni'n recriwtio ac yn datblygu gweithlu sy'n cynrychioli ein cymunedau. Byddwn ni'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac yn gweithio i leihau tlodi. Byddwn ni'n dathlu amrywiaeth, yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n lleoedd yn hygyrch i bawb, ac yn cael gwared ar bob math ar gamwahaniaethu.

### Cynaliadwy
Byddwn ni'n chwarae ein rhan wrth ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur. Byddwn ni'n cynyddu faint o wariant y Cyngor sy'n cael ei wario yn yr economi leol a rhanbarthol, ac yn annog pobl leol i brynu'n lleol. Byddwn ni'n cydbwyso'r camau mae angen i ni eu cymryd yn y tymor byr ag effaith hirdymor bosibl y camau hynny ar genedlaethau'r dyfodol.

### Gwerth am Arian
Byddwn ni'n defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn gweithio'n galed i sicrhau ffynonellau incwm newydd a dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi ein partneriaid, gyda'r nod o gyflawni ein pwrpas a'n gweledigaeth.

# Rhestr gyfeirio delweddau

| | |
|---|---|
| Blaen | Golygfa dros Bort Talbot, gwaith celf yng Nghwm Aman, Parc Margam, Canol Tref Castell-nedd |
| 2 | Traeth Aberafan |
| 3 | Cwm Aman |
| 11 | Sgydau'r Gnoll |
| 12 | Panorama Glan yr Harbwr |
| 22 | Canol tref Castell-nedd |
| 24 | Neuadd Gwyn, Camlas Castell-nedd |
| 31 | Abaty Nedd |
| 32 | Glan môr Aberafan |
| 43 | Cwmni Datrysiadau Digidol Keytree ym Mhort Talbot |
| Cefn | Cwm Aman |



# DAL I SGWRSIO

LetsTalk@npt.gov.uk
#DewchISgwrsioCNPT